HYFFORDDIAD

I

Wybodaeth jachusol

O

Egwyddorjon a *Dyledswyddau*

CREFYDD.

Egwyddor i 'r Anllythyrennog i ddyſgu darllain.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.

Y Llafarjaid, neu 'r Bogeiljaid.

a e i o u w y.

Yr holl Lythyrennau eraill a elwïr Cydſeiniaid.

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chy
ad ed id od ud wd yd	da de di dô du dw dy
add edd idd odd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	fa fe fi fo fu fw fy
aff eff iff off uff wff yff	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	ja je ji jo ju jw jy
all ell ill oll ull wll yll	la le li lo lu lw ly
am em im om um wm ym	lla lle lli llo llu llw lly
an en in on un wn yn	ma me mi mo mu mw my
ap ep ip op up wp yp	na ne ni no nu nw ny
aph eph iph oph uph wph yph	pa pe pi po pu pw py
ar er ir or ur wr yr	pha phe phi pho phu phw phy
as es is os us ws ys	ra re ri ro ru rw ry
at et it ot ut wt yt	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
ath eth ith oth uth wth yth	ta te ti to tu tw ty

HYFFORDDIAD

I Wybodaeth jachusol o

GWYDDORJON a DYLEDSWYDDAU

CREFYDD:

SEF,

HOLIADAU ac ATTEBION Yſgrythurol

Ynghylch yr ATHRAWJAETH a gynhwyſir

Yng Nghateciſm yr Eglwys.

ngenrheidjol i'w dyſgu gan HEN a JEUAINGC.

Y BEDWAREDD RAN.

YN CYNNWYS

Esboniad o WEDDI'R ARGLWYDD.

nghŷd â Deſgrifiad o WEDDI, a'i Rhagoriaeth; amryw Gyfarwyddiadau buddjol yn ei chylch, ac Annogiadau grymmus i *bob Criſtjon* i *weddio* DUW mewn llawn Hyder Ffydd, heb ammau dim.

Gan WEINIDOG o EGLWYS *LOEGR.*

ATH. v. 9. Am hynny gweddiwch chwi fel hyn.
ATH. xxi. 22. A pha beth bynnag a ofynnoch mewn gweddi, gan greda, chwi a'i derbyniwch.

---

rgraphwyd yn *LLUNDAIN*, yn y Flwyddyn M.DCC.XXVI.

BRITISH MUSEUM
30
60
MAY

HYFFORDDIAD I WYBODAETH jachuſol O EGWYDDORJON a DYLEDSWYDDAU CREFYDD.

Y BEDWAREDD RAN.

Cweſtiwn.

BETH yw eich meddwl am y Ddyledſwydd o *weddio Duw*?

Atteb. Gan nad wyf abl, o honof fy hun, i waſanaethu Duw megis y dylwn, o herwydd fy anallu, mi a ddylwn ddyfalweddio Duw am Gymmorth. Canys Criſt a ddywaid, Joan xv. 5. — *Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.* Sal. lv. 17. 2 Cor. iii. 5.

Cw. Beth yw *Gweddi*?

Att. 1. Y mae *Gweddi*, weithjau, yn arwyddocâu *holl Addoliad Duw*; o blegid mai *Gweddi* yw 'r Rhan bennaf o hono. — Joel ii. 32. *A bydd yr achubir pob un a alwö ar Enw 'r Arglwydd:* (ſef, y ſawl a wîr-addolant Dduw.) *Rhuf.* x. 13.

2. Mae *Gweddi*, yn yr yſtyr gyffredinol o honi, yn cynnwys ynthi amryw Rannau; ſef, Cyfeiriad parchus o'n Gweddi at Dduw, wrth ei Enwau a'i Ditlau. 2. Cyfaddefiad o'n Pechodau. 3. Erfyniau am Drugaredd. 4. Eirjolaeth dros eraill. 5. Diolchgarwch. 1 *Joan* i. 9. 1 *Tim.* ii. 1.

3. *Gweddi*, yn yr yſtyr briodol o honi, ar ei phen ei hun, yw, dyrchafu ein Heneidjau at Dduw, a thywallt allan Ddeiſyfiadau ein Calonnau ger ei fron ef. —— Sal. lxii. 8. —*O bobl, tywelltwch eich calon ger ei fron ef: Duw ſydd noddfa i ni.* Sal. xxv. 1.

4. Mae *Gweddi* o amryw fâth; ſef, 1. Gweddi Bublic, yn yr Addoliad Eglwyſig. 2. Gweddi Deuluol, gyd â'n tylwyth gartref. 3. Gweddi Brifat, pob un ar ei ben ei hun. 4. Gweddi'r Meddwl a'r Ysbryd, heb leferydd y genau; ag y ddylem arferyd yn waſtad ar bob achos.—— Eph. vi. 18. *Gan weddio bob amſer â phob rhyw weddi a deiſyfiad yn yr Ysbryd.*

Cw. Ar bwy y dylech weddio?

Att. 1. Nid oes i ni, megis y Cenhedloedd, weddio ar Eulynnod meirwön a Delwau. —— Sal. cxxxv. 17. Y rhai *y mae cluſtjau iddunt, ond ni chlywänt; nid oes chwaith anadl yn eu genau.*

2. Nid oes i ni, megis y Pabyddjaid deillion, weddio ar y Seintjau; canys ni wyddant oddi wrthym. —— Eſay lxiii. 16. *Nid edwyn Abraham ni, ac Iſräel ni'n cydnebydd.*

3. *Ar Dduw yn unig* y dylem weddio. —— Eſay viii. 19. —*Onid â'u Duw yr ymofyn pobl?* Sal. lxv. 2. xliv. 20, 21.

Cw. Pa ham y dylech weddio ar Dduw yn unig?

Att. 1. O blegid mai Duw yn unig ſy'n Hollbreſennol, ac yn agos attom ym mhob lle. —— Jer. xxiii. 23, 24. *Duw o agos ydwyf fi, medd yr Arglwydd, ac nid Duw o bell. — Onid ydwyf fi yn llenwi'r nefoedd a'r ddaear? medd yr Arglwydd.*

2. O blegid mai Duw yn unig ſydd Hollwybodol, ac yn hysbys o'n holl Ddymuniad. —— 1 Bren. viii. 39. —*Canys ti yn unig a adwaenoſt galonnau holl feibjon dynjon.*

3. O blegid mai Duw yn unig ſy'n Hollalluog, ac yn abl i gyflawnu'n Dymuniad. —— Eph. iii. 20. *Yr hwn a ddichon wneuthur yn drarhagorol, uwchlawnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn* [illegible] Sal. lvii. 2.

4. O

4. O blegid mai Rhan o'r Addoliad ſydd ddyledus i Dduw yn unig, yw *Gweddi.* —— Math. iv. 10. — *Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a waſanaethi.* Ecſod. xxii. 20.

5. O blegid mai Duw yn unig ſy 'n gwrando ei Bobl pan weddiont. —— Sal. xxxiv. 15. *Llygaid yr Arglwydd ſydd ar y cyfiawn; a'i gluſtjau ſydd yn agored i'w llefain hwynt.* Sal. cxlv. 18, 19.

Cw. Yn Enw, a thrwy Gymmorth *pwy*, y dylech weddio?

Att. 1. Trwy Ffydd yn Enw a Chyfryngdod *Criſt.* —— Joan xiv. 14. *O's gofynnwch ddim yn fy Enw i, mi a'i gwnâf.* Marc xi. 24. Joan xv. 7, 16. xvi. 23. Eph. iii. 12.

2. Trwy Gymmorth a Chyfarwyddyd *Ysbryd Duw* y dylem weddio. —— Rhuf. viii. 26. — *Mae'r Ysbryd yn cynhorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddiom, megis y dylem: eithr y mae'r Ysbryd ei hun yn erfyn troſom ni ag ocheneidiau annhraethadwy.* Gal. iv. 6.

Cw. Am ba bethau y dylech weddio?

Att. 1. Nid oes i ni weddio am unrhyw beth i borthi'n blŷs, a'n chwantau pechadurus: canys ni lwydda 'r cyfryw Weddiau. —— Jago iv. 3. *Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, o herwydd eich bod yn gofyn ar gam, fel y galloch eu treulio ar eich melyſchwantau.*

2. Ni a ddylem weddio am bob peth angenrheidjol, a chytunol ag Ewyllys Duw. —— 1 Joan v. 14. *A hyn yw'r hyfder ſydd gennym tu ag atto ef; ei fod ef yn ein gwrando ni, o's gofynnwn ddim yn ôl ei ewyllys ef.* Math. vii. 8.

Cw. Am ba bethau y dylech weddio *yn fwyaf enwëdigol*?

Att. 1. Ni a ddylem weddio am Ysbryd Duw, i'n ſancteiddo, a 'n cymmorth ym mhob Rhan o Waſanaeth Duw; ac efe a rydd ei Ysbryd i ni. —— Luc xi. 13. *O's chwychwi, — y rhai ydych ddrwg, a fedrwch roi rhoddion da i'ch plant chwi, pa faint mwy y rhydd eich Tâd o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofynno ganddo?*

2. Ni a ddylem weddio Duw, ynghylch holl Ofalon gofidus, ac Angenrheidjau 'r Bywyd hwn: canys felly y cawn Dangnefedd yn Nuw ym mhob cyflwr. —— Phil. iv. 6, 7. *Na ofelwch am ddim: eithr ym mhob peth, mewn gweddi ac ymbil gyd â diolchgarwch, gwneler eich deiſyfiadau chwi yn hyſbys ger bron Duw. A thangnefedd Dduw, yr hwn*

ſydd uwch law pob dyall, a geidw eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghriſt Jeſu.

3. Ni a ddylem weddio Duw am Gymmorth yn ein Gwaith a'n Galwäd, ac ym mhob peth i ogoneddu Duw; megis y mae Duw yn gorchymmyn. —— 1 Cor. x. 31. *Pa un bynnag gan hynny ai bwyta, ai yfed, ai beth bynnag a wneloch, gwnêwch bob peth er gogoniant i Dduw.*

4. Ni a ddylem weddio Duw am Ymwared mewn Adfyd a Thrallod; ac er i Dduw ei bendithio i ni. —— Jago v. 13. *A oes neb yn eich plith mewn adfyd? gweddied.* Sal. l. 15. lxxxvii. 9. cxx. 1. cxviii. 5. Eſay xxx. 19.

5. Ni a ddylem weddio am Fendith Duw ar yr holl Drugareddau y mae Duw yn rhoddi. Canys, *trwy Air Duw a gweddi y ſanctteiddir hwynt.* 1 Dim. iv. 5.

6. Ni a ddylem weddio Duw am Fuddugoliaeth ar Brofedigaethau Satan. —— Luc xxii. 40. — *Gweddiwch nad eloch mewn profedigaeth.* Marc xiv. 38. 2 Cor. xii. 7, 8. Math. xxvi. 41.

7. Ni a ddylem weddio am Gymmundeb ysbrydol â Duw, a'n dwyn o'r diwedd i Deyrnas Nefoedd. —— Sal. xxvii. 4. *Un peth a ddeiſyfais i gan yr Arglwydd, hynny a geiſiaf; ſef, caffael trigo yn nhŷ'r Arglwydd holl ddyddjau fy mywyd; i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml.*

Cw. Dros bwy y dylech weddio?

Att. 1. Mi a ddylwn weddio *drоſof fy hun*; yr hyn ni ddylai neb eſgeuluſo. — Sal. xxxii. 6. *Pob duwjol a weddia arnat ti yn yr amſer y'th geffir: yn ddiau yn llifeiriant dyfroedd mawrjon, ni chânt hwy nesâu atto ef.*

2. Mi a ddylwn weddio *dros bawb eraill* hefyd. —— 1 Dim. ii. 1. *Cynghori yr ydwyf, ym mlaen pob peth, ſod ymbiliau, gweddiau, deiſyfiadau, a thalu diolch, dros bob dyn.* Math. v. 44.

Cw. Pa ham y mae'n ddyledus arnoch, *i weddio*?

Att. 1. Mae Awdurdod y *Duw* Mawr yn gorchymmyn i ni weddio; fel nad oes i ni feiddio dewis yr un a fynnom, ai gweddio, ai peidio. —— 1 Theſſ. v. 17. *Gweddiwch yn ddibaid.* Eſay lv. 6.

2. O blegid Eſamplau'r holl Dduwjoljon: canys y mae Ysbryd Duw yn dyſgu pob un o Blant a Phobl Dduw i weddio arno. —— Gal. iv. 6. *O herwydd eich bod yn feibjon,*

yr

yr anſonodd Duw Ysbryd ei Fâb i'ch calonnau chwi, yn llefain, Abba, Dâd. Zech. xii. 10. Sal. xxxii. 6.

3. Trwy weddio arno, y mae Duw yn danfon Cymmorth mewn Trallod. —— Sal. l. 15. *Agalw arnaſi yn nydd trallod; mi a'th waredaf.* Sal. xviii. 3—6.

4. Trwy Weddio, y mae i ni gael Ysbryd Duw, i gynhyddu mewn Grâs, ac i'n cymmorth ym mhob peth. —— Luc xi. 13. *O's chwychwi, — y rhai ydych ddrwg, a fedrwch roi rhoddion da i'ch plant chwi, pa faint mwy y rhydd eich Tâd o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofynno ganddo?*

5. Trwy Weddi, mae i'r Duwjol gael Bôdd Duw, a Gorfoledd Jechydwriaeth, pan fytho mewn tywyllwch a thrymder ysbryd. —— Job xxxiii. 26. *Efe a weddia ar Dduw, ac yntef a fydd hoddlon iddo, ac efe a edrych yn ei wyneb ef mewn gorfoledd.* Eſay lviii. 9.

6. Trwy Weddio, ac nid heb hynny, y mae i ni gael y Bendithion y mae Duw yn addaw. —— Ezec. xxxvi. 26, 37. *Rhoddaf i chwi gâlon newydd; ysbryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi. — Ymoſynnir â myfi etto* (medd yr Arglwydd) *gan dŷ Iſräel, i wneuthur hyn iddunt.*

7. Trwy Weddio, y troir ymmaith y Barnedigaethau y mae Duw yn ei fygwth. —— 2 Cron. vii. 14. *O's fy mhobl, y rhai y gelwïr fy Enw arnunt, a ymoſtyngant, ac a weddiant, ac a geiſiant fy wyneb, ac a droant o'u ffyrdd drygionus: yna y gwrandawäf o'r nefoedd, ac y maddeuaf iddunt eu pechodau, ac yr jachâaf eu gwlâd hwynt.* Ecſod. xxxii. 11, 14.

8. Mae Duw yn bygwth Barn a Melldith 'ſgeler ar bawb ni weddiant arno. —— Jer. x. 25. *Tywallda dy lîd ar y cenhedloedd y rhai ni'th adnabuant, ac ar y teuluoedd ni alwäſant ar dy Enw.* Zeph. i. 4, 6.

9. Ni a ddylem weddio, o blegid cymmaint yw Llwyddiant Gweddi. —— Jago v. 16. *Llawer a ddichon taerweddi'r cyfiawn.*

Cw. O herwydd pa achos y mae i ni weddio, gan fod Duw yn gwybod ein Hangen cyn y gofynnom?

Atr. 1. O blegid mai Aberth gymmeradwy yng ngolwg Duw, a Rhan arbennig o'i Addoliad ef, yw *Gweddi.* —— Sal. cxli. 2. *Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron fel arogldarth, a dyrchafiad fy nwylaw fel yr offrwm prydnhawnol.* Sal. l. 23.

2. O herwydd nad oes gennym hawl i eiddo neb, heb erfyn am dano; nac o Drugareddau Duw, a biau'r holl fyd, heb weddio am danunt. —— 1 Cor. x. 26. *Canys eiddo'r Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder.*

3. Gweddi yw'r Ordinhâad trwy ba un y mae Duw yn addaw rhoddi pob peth y fo'n eifiau arnom. —— Math. vii. 7. *Gofynnwch, a rhoddir i chwi; ceifiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi.* 2 Cron. xv. 2.

4. Trwy Weddi y'n tynnir ni (yn ein Serch) yn nês at Dduw; fel y dêl yntef (yn ei Râs) yn nês attom ni. —— Jago iv. 8. *Nesêwch at Dduw, ac efe a nesâ attoch chwi.*

5. Ni a ddylem weddio, fel y cydnabyddom yn ddiolchgar, mai gan Dduw yr ydym yn cael pob peth. —— 1 Cor. iv. 7. — *Pa beth fydd gennyt a'r na's derbyniaift?*

Cw. Pa fodd y mae i chwi weddio'n gymmeradwy?

Att. 1. Trwy Ffydd ddiffuant, ac heb amheuaeth. —— Math. xxi. 22. *Apha beth bynnag a ofynnoch mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch.* —— Jago i. 6, 7. *Gofynned mewn ffydd, heb ammau dim. Canys yr hwn fydd yn ammau, fydd gyffelyb i donn y môr, a chwelir ac a defflir gan y gwynt. Canys na feddylied y dyn hwnnw y derbyn efe ddim gan yr Arglwydd.* Marc xi. 24. Hebr. xi. 6.

2. Yn wirioneddus, â'n holl galonnau; ac nid yn rhagrithiol. —— Jer. xxix. 13. *Ceifiwch fi, a chwi a'm cewch, pan y'm ceifioch â'ch holl gâlon.* Sal. cxlv. 18. Hebr. x. 22. Job xxxv. 13.

3. Yn wîrofiyngedig; ac nid yn wâgogoneddus. —— Jago iv. 6. — *Y mae Duw yn gwrthwynebu'r beilchion, ond yn rhoddi grâs i'r rhai gofiyngedig.* —— Ecclus. xxxv. 17. *Gweddi y gofiyngedig a â trwy'r cymhylau; ac ni's diddenir hi nes ei dyfod yn agos; nid ymedy hi nes i'r Goruchaf edrych i farnu yn gyfiawn.* Sal. x. 17. Efay lxvi. 2. Luc xiv, 11. xviii. 13, 14.

4. Yn daerddyfal; nid yn fwrthlyd neu'n glaiar. — Diar. xiii. 4. *Enaid y diog a ddeifyf, ac ni chaiff ddim: ond enaid y diwyd a wnêir yn frâs.* —— Dad. iii. 16. *Am dy fod yn glaiar, — mi a' th chwydaf di allan o'm genau.* Jago v. 16. Sal. lv. 17.

5. Yn gyffon; ac nid weithjau 'n unig, neu ambell waith, gan efgeuluso bryd arall. —— Luc xviii. 1. Crift *a ddywedodd ddammeg wrthunt, fod yn rhaid gweddio yn waftad, ac heb ddiffygio.*

ddiffygio. —— Eph. vi. 18. *Gan weddio bob amſer â phob rhyw weddi a deiſyſiad yn yr ysbryd.* Sal. xl. 1.

6. Gyd ag Ufudd-dod ymröus i Ewyllys Duw; heb eſgeuluſo'r Rhannau eraill o'i Addoliad eſ. —— Joan ix. 31. *Ni a wyddom nad yw Duw yn gwrando pechadurjaid: ond o's yw neb yn addolwr Duw, ac yn gwneuthur ei ewyllys ef, hwnnw y mae yn ei wrando.* Joan xv. 7. Diar. xxviii. 9. Ecclus. xxxv. 16. 1 Joan iii. 22.

7. Mi a ddylwn weddio yn ddyallus; ac nid yn anyſtyriol, nac yn oferſiaradus. —— 1 Cor. xiv. 15. — *Mi a weddiaf â'r ysbryd, ac a weddiaf â'r dyall hefyd.* —— Math. vi. 7. *Pan weddioch, na ſyddwch ſiaradus, fel y cenhedloedd: canys y maent hwy yn tybiaid y cânt eu gwrando am eu haml eirjau.* Job xxxv. 13.

8. Mi a ddylwn weddio gyd â chaſineb i bob anwiredd a phechod. —— Sal. lxvi. 18. *Pe edrychaſwn ar anwiredd yn ſy nghàlon, ni wrandawſai'r Arglwydd.* Diar. xxviii. 9. 2 Dim. ii. 19.

9. Mi a ddylwn weddio gyd ag Ymddygaid goſtyngedig a pharchus yn fy Nghorph a'm Henaid o flaen Duw. —— 1 Cor. vi. 20. *Canys er gwerth y prynwyd chwi: gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph, ac yn eich ysbryd, y rhai ſydd eiddo Duw.* Sal. xcv. 6.

10. Mi a ddylwn weddio'n wiliadwrus; nid yn gyſglyd ac yn ddiofal. —— Col. iv. 2. *Parhêwch mewn gweddi, gan wilied ynddi.* Marc x. 38. Eph. vi. 18. 1 Pedr iv. 7. Math. xxvi. 41.

Cw. Pa beth a ddylai'ch hannog i gredu, y gwrendy Duw eich Gweddiau?

Att. 1. Addewidjon Duw. —— Math. vii. 7, 8. *Gofynnwch, a rhoddir i chwi; ceiſiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi. Canys pob un ſy'n gofyn, ſy'n derbyn; a'r neb ſy'n ceiſio, ſy'n cael; ac i'r hwn ſydd yn curo, yr agorir.* Math. xxi. 22. Jer. xxix. 13.

2. Ffyddlondeb a Gwirionedd Duw. —— Num. xxiii. 19. *Nid dyn yw Duw i ddywedud celwydd, na mâb dyn i edifarhâu: a ddywedodd efe, ac ni's cyflawna? a lefarodd efe, ac oni chyflwira?* Hebr. x. 23.

3. Hollwybodaeth Duw: canys efe a wyr am ein Gweddiau dirgelaf. —— Sal. xliv. 21. *Oni chwilia Duw hyn allan? canys efe a wyr ddirgeloedd y gàlon.* Sal. cxxxix. 2, 4.

4. Hollalluogrwydd Duw; ag ſydd abl i gwplâu Gweddiau ei Bobl. —— Eph. iii. 20. Êſe *a ddichon wneuthur yn drarhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl.* Rhuf. iv. 21. Sal. cxxxv. 6. Math. viii. 2, 3. ix. 27—30.

5. Hollbreſennoldeb Duw; ag ſy'n agos at bawb a weddiant arno. —— Sal. cxlv. 18, 19. *Agos yw'r Arglwydd at y rhai oll a alwänt arno mewn gwirionedd. Efe a wnâ ewyllys y rhai a'i hofnant: gwrendy heſyd eu lleſain, ac a'u hachub hwynt.* Deut. iv. 7.

6. Trugarogrwydd Duw a'i Doſturi. —— Sal. ciii. 13. *Fel y toſturia tâd wrth ei blant, felly y toſturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.* Math. vii. 11. Eſay xlix. 15, 16. Sal. cii. 17, 20.

7. Cariad Duw, yn rhoddi i ni ei Fâb yr Arglwydd Jeſu. —— Rhuf. viii. 32. *Yr hwn nid arbedodd ei brîod Fâb, ond a'i traddododd ef troſom ni oll; pa wedd gyd ag ef heſyd na ddyry efe i ni bob peth?*

8. Erfyniad Criſt ar Ddeheulaw Duw. *Yr hwn ſydd yn eirjol dros y troſeddwyr. Yn yr hwn y mae i ni hyfdra, a dyfodfa mewn hyder* (o flaen Duw) *trwy ei ffydd ef.* Eſay liii. 12. Eph. iii. 12. Hebr. vii. 25. Dad. viii. 3, 4. Joan xiv. 14.

9. Y Gorchymmynnion a rydd Duw i ni, i weddio arno: canys nid yn ofer y mae Duw yn ein cymmell i geiſio gantho. —— Eſay xlv. 19.—*Ni ddywedais wrth hâd Jacob, Ceiſiwch fi yn ofer. Myfi'r Arglwydd wyf yn lleſaru cyfiawnder, ac yn mynegi pethau unjon.* Luc v. 5, 6. Eſay lv. 6.

10. Mae Profiadau Pobl Dduw, ac Eſamplau'r Duwjoljon gynt, o Effaith a Llwyddiant Gweddi, yn Annogaeth rymmus i weddio trwy Ffydd. —— Sal. xxii. 4, 5. *Ein tadau a obeithiaſant ynnot: gobeithiaſant, a gwaredaiſt hwynt. Arnat ti y lleſaſant, ac achubwyd hwynt.* 2 Cron. xv. 4, 15. Sal. ix, x.

Cw. Pa rai yw'r Eſamplau hynodaf o Effaith a Llwyddiant *Gweddi*?

Att. 1. Trwy Weddi *Abraham*, y bendithiodd Duw *Iſaac*, ei fab o *Sara*; ac *Iſmäel* heſyd, ei fâb o'i lawforwyn: a thrwy Weddi *Abraham* yr jachaodd Duw *Abimelec*, a'i wraig, a'i forwynjon. *Gen.* xvii. 20. xx. 17, 18.

2. Gwâs

2. Gwâs *Abraham*, trwy weddio wrth drafaelu ar hŷd y ffordd, a gafodd ei gyfarwyddo gan Ragluniaeth Duw, a'i lwyddo yn ei daith, pan oedd efe yn myned i geisio gwraig i fâb ei feistr. *Gen.* xxiv.

3. Trwy Weddi y cafodd *Sara*, *Rebecca*, *Rahel*, a *Hanna*, blant gan Dduw, ar ôl eu bod yn ammhlantadwy lawer o flynyddoedd. *Gen.* xv. 2—6. xxi. 26. xxx. 22, 23. 1 *Sam.* i.

4. Trwy Weddi *Jacob*, y gwnaeth Duw i *Esau* ei frawd ei dderbyn ef yn garedigol, a'i gofleidio, pan oedd yn dyfod yn ddigllon â phedwar cant o wŷr yn ei erbyn ef. *Gen.* xxxii. 6—11. xxxiii. 1—4.

5. Trwy Weddi *Moses*, y ſymmudwyd llawer o Farnau trymmion oddi ar wlâd yr *Aipht*, ac ar ôl hynny oddi ar bobl *Iſräel* yn yr anialwch; a thrwy Weddi y cafodd efe lawer o Fendithion mawrjon a Gwaredigaethau rhyfedd iddunt, fel na fynnai Duw ballu dim iddo. *Ecſod.* xxxii. 9, 10. Darllen *Ecſod.* a *Num.*

6. Trwy Weddi y gorchfygodd *Joſua'r Canaaneaid*; ac y ſafodd yr haul ddiwrnod cyfan ynghanol y ffurfafen, nes i bobl *Iſräel* ddial ar eu gelynjon. *Joſ.* x. 12—24.

7. Trwy Weddi *Samſon*, y cafodd efe ddwfr o ên yr aſyn, pan oedd ar drengu o ſyched; a nerth gan Dduw ar ôl hynny, wrth farw, i ladd tair mîl o'r *Philiſtiaid*. Barn. xvi. 27—30. —A thrwy Weddi *Samuel*, y lladdwyd llawer ychwaneg o honunt â tharanau mawr o'r nefoedd, pan oeddynt yn rhyfela yn erbyn *Iſräel*. 1 Sam. vii. 7—14.

8. Trwy Weddi ddiſtaw yn ei meddwl ei hun, yr aeth *Hanna* yn gyffurus, pan oedd hi dan orthrymder mawr; ac ni bu athriſt mwy. 1 *Sam.* i. 12—18.

9. Trwy Weddi *Daſydd*, y gwaredodd Duw ef yn fynych o ddwylaw *Saul*, a'r *Philiſtiaid*, a *Goliath*; ac y tröwyd cyngor cyfrwys *Ahitophel* yn ffolineb, pan oedd *Abſalom* ei fâb yn gwrthryfela yn ei erbyn. *Sal.* lvi. 9. xviii. 6. cxxxviii. 3.

10. Trwy Weddi y cyfododd *Elias* fab y wraig o *Sarepta*, ac *Eliſeus* fâb y *Sunamites*, o farw i fyw. 1 *Bren.* xvii. 17—22. 2 *Bren.* iv. 33—36.

11. Trwy weddio Duw y cafodd *Jabes* ei lwyrfendithio, ac a dderbyniodd yr hyn oll a ofynnodd gan Dduw. 1 *Cron.* iv. 9, 10.

12. Trwy

12. Trwy Weddiau *Abiah*, *Aſa*, *Jehoſaphat*, a *Hezeciah*, y gwnaeth Duw yn rhyfeddol droſtunt yn erbyn eu gelynjon: a phan weddiodd *Hezeciah* yn ei glefyd, yr Arglwydd a'i jachaodd ef, ac a chwanegodd bymtheng mlynedd at ei ddyddjau. 2 *Cron.* xiii. 15—20. xiv. 9—15. xx. 1. 2 *Bren.* xix. a'r xx.

13. Y Brenin annuwjol *Manaſſeh*, y gwaethaf o bechadurjaid, pan weddiodd yn ei gyfyngder, Duw a'i gwaredodd o ddwylaw ei elynjon, ac a fu fodlon iddo. 2 *Cron.* xxxiii.

14. Trwy Weddi ac Ympryd, yr achubwyd yr *Juddewön* ym *Babilon*, pan oedd *Haman* yn bwriadu i ddifetha eu holl genhedl; ac yr achubwyd trigolion *Nineveh*, pan oedd Duw yn bygwth eu dinyſtr ym mhen deugain niwrnod: a thrwy Weddi *Jonah* hefyd, y gwaredodd Duw ef o fol uffern; ſef, o waelod y môr, a bol y morfil. Darllen Llyfrau *Eſther* a *Jonah*.

15. Trwy Weddiau *Ezra* a *Nehemiah*, y cawſant hwy lwyddiant i ddychwelyd o'u caethglud ym *Babilon* i adeiladu Teml Dduw, a Dinas *Jeruſalem*, er maint oedd digllonedd eu gwrthwynebwyr. Darllen Llyfrau *Ezra* a *Nehem.*

16. Trwy Weddi *Job*, y gwaredwyd ef o'i holl gyſtudd a'i golledion, ac y rhoddwyd iddo dracheſn ei holl feddiannau a'i wynfyd yn ddauddyblig. *Job* xlii. 10—17.

17. Trwy Weddi *Daniel*, y rhoddwyd iddo ddoethineb i fynegu breuddwyd *Nabuchodonoſor*, a'i ddeongliad; ac y cadwyd ef yn ôl hynny yn ddiniwaid, pan daflwyd ef, trwy falais ei elynjon, i ffau 'r llewöd. *Dan.* ii. a'r vi. ben.

18. Trwy Weddi Criſt am Fendith, y gwnaethpwyd pum torth haidd a dau byſgodyn yn ddigon i borthi pum mil, a deuddeg baſgedaid o friwfwyd yngweddill; gyd â Gwyrthjau aneirif ychwaneg. *Luc* ix. 14—17.

19. Trwy Weddi *Bartimëus* ddall, y caſodd efe ei olwg; a llawer eraill eu jachâu gan yr Arglwydd Jeſu. *Marc* x. 46—52.

20. Trwy Weddi y llanwyd yr Apoſtoljon â'r Yſbryd Glân, i lefaru Gair Duw yn hyderus. Trwy Weddi'r Eglwys, yr anfonodd Duw Angel i agor dryſau 'r carchar, a'r porth haiarn, i ollwng *Pedr* allan, pan oedd ym mryd *Herod* ei ſerthyro ef drannoeth: A thrwy Weddi *Paul* a *Silas*, pan oeddynt yngharchar, y daeth daeargryn mawr, hyd oni ſiglwyd ſeiliau'r carchar, ac yr aeth rhwymau pawb yn rhyddjon. *Act.* iv. 31. xii. 5—7. xvi. 25, 26.

Cw. Gan

Cw. Gan ſod *Gweddi* mor effeithjol, pa ſodd y mae rhai pobloedd yn achwyn ſod eu Gweddiau'n aneffeithjol, ſel pe na fyddai Duw yn gwrando arnunt?

Att. 1. O's gwîr yw, ſod Gweddiau y rhai ſo'n achwyn felly yn aneffeithjol, nid Ffyddlondeb Duw, eithr hwynthwy eu hunain ſydd yn y bai: canys ceiſio'n anghywir, neu ſerch i ryw anwiredd dirgel, ſy'n rhwyſtro Effaith eu Gweddiau. — Sal. lxvi. 18. *Pe edrychaſwn ar anwiredd yn fy nghâlon, ni wrandawſai'r Arglwydd.*

2. Fe ddichon rhai farnu'n fyrbwyll, ſod eu Gweddiau'n afleſiol, pan welont ym mhen ychydig yn ôl hynny ſod Duw yn eu gwrando: Felly y gwnaeth *Dafydd* unwaith. —— Sal. xxxi. 22. *Mi a ddywedais yn fy ffrwſt, Fe'm bwriwyd allan o'th olwg: er hynny ti a wrandewaiſt lais fy ngweddiau pan lefais arnat.*

3. Mae Duw weithjau yn oedi Gweddiau ei Bobl dros dro, i brofi eu Ffydd, a'u Hammynedd, a'u Parhâad hwynt mewn Gweddi. Y wraig o *Ganaan* a ymbiliodd amryw o weithjau, cyn i'r Arglwydd ganiattâu ei deiſyfiad. *Math.* xv. 22--28.—Gweddi *Iſaac* am hiljogaeth, a gwplaodd Duw ym mhen ugain mlynedd ar ôl hynny, pan aned *Jacob* iddo. *Gen.* xxv. 19—23.

4. Pan na fytho Duw yn caniattâu'r peth pennodol y ſo ei Bobl yn geiſio, mae 'n atteb eu Gweddi mewn peth arall ſydd well iddunt. ——Gen. xvii. 18, 19. *Abraham a ddywedodd wrth Dduw, Oh na ſyddai byw Iſmäel ger dy fron di! A Duw a ddywedodd, Sara dy wraig a ymddwg i ti fâb yn ddiau, a thi a elwï ei enw ef Iſaac: a mi a gadarnhâaf fy nghyfammod ag ef yn gyfammod tragywyddol, ac â'i hâd ar ei ôl ef.* *Paul* a ymbiliodd am ſymmud y *ſwmbwl* oedd yn ei gnawd: a Duw a ddywedodd wrtho, *Digon i ti fy ngrâs i; fy nerth a berffeithir mewn gwendid.* 2 Cor. xii. 7—9.

5. Y ſawl a ſo heb weled Effaith eu Gweddiau yn breſennol, a ddylent barhâu i weddio er hynny: canys hwy a ſyddant ſicr o lwyddo yn y diwedd; o blegid ſod Trugaredd a Ffyddlondeb Duw, Cyfammod ac Addewidjon Duw, Eirjolaeth Mâb Duw yn y Nef, ac Erfyniad Ysbryd Duw oddi fewn iddunt, ar ran eu Gweddiau hwynt. —— : Cron. xv. 7. *Ymgryfhêwch gan hynny, ac na laeſed eich dwylaw: canys y mae gwobr i'ch gwaith chwi.*

Cw. Pa

Cw. Pa Ddefnydd a ddylech wneuthur o'r Eſamplau a enwäſoch o Effeithjoldeb *Gweddi*?

Att. 1. Wrth weled mor effeithjol yw Gweddi ym mhob cyflwr, i gael pob peth ſy raid, mi a ddylwn ymrôi yn bennaf dim i weddio, ac i geiſio Ysbryd Duw i 'm dyſgu: canys y mae Duw yn addaw ei roddi i bawb o 'i Bobl. —— Zech. xii. 10. *A thywalldaf ar dŷ Ddaſydd, ac ar breſwylwyr Jeruſalem, ysbryd grâs a gweddiau.*

2. Fe ddylai'r Eſamplau hyn gynhorthwyo ſy Ffydd i weddio Duw yn ddifrifol ac yn ddyſal, heb ddiffygio: canys mi allaf gael gan Dduw, wrth geiſio, fwy mewn ychydig amſer, nag allaf byth gyrhaedd trwy ſy ymdrech ſy hun holl ddyddjau fy mywyd. *Jago* v. 16.

3. Mi a ddylwn alaru'n ofidus am fy ngholled, trwy eſgeuluſo Gweddi cyhyd: Difudd a difendith fu fy holl ymgais drafferthus yn y byd, o herwydd na cheiſiais yr Arglwydd â 'm holl gàlon.

Cw. Beth yw Rhagoriaeth y Ddyledſwydd o *Weddi*?

Att. 1. *Gweddi* yw Brenhines a'r pennaf o Ddyledſwyddau Creſydd, trwy ba un y mae i ni gael Cymmorth a Llwyddiant yn yr holl Ddyledſwyddau eraill, a Bendith ar bob peth a feddom ac a wnelom.

2. Allwedd Tryſorau 'r Nefoedd, yw *Gweddi*, i dynnu allan ac i gaffael pa peth bynnag ſydd angenrheidjol a buddjol i ni. —— Math. xxi. 22. *A pha beth bynnag a oſynnoch mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch.* Joan xv. 7.

3. Cennad yr Enaid, yw *Gweddi*, a â yn unjon at Dduw o bob lle a chyflwr, er gwaethaf pob caethiwed a rhwyſtrau, i gyrchu Cyſſur a Chymmorth oddi wrtho. Gweddi *Daſydd* yn yr ogof, lle ffôdd rhag *Saul*, Gweddi *Eliſëus* yng nghânol llu mawr ei elynjon, Gweddi *Jeremiah* o waelod y pydew, Gweddi *Daniel* o ffau 'r llewöd, Gweddi *Jonah* o fol uffern yng ngwaelod y môr, a Gweddi *Paul* a *Silas* yn y carchar, a ddygodd ymwared iddunt. Titl *Sal.* v. 2 *Bren.* vi. *Galar.* iii. 55, 56. *Dan.* vi. *Jonah* ii. *Act.* xvi.

4. Trwy Weddi y mae i ni gael ein hadſywio a'n meithrin mewn Cyfeillach ysbrydol â Duw; ac i dderbyn pob Graſau angenrheidjol oddi wrtho, a Gallu i weithredu 'r Graſau yſo gennym, —— Sal. cxxxviii. 3. *Y dydd y lleſais y'm gwrandewaiſt, ac a'm cadarnheaiſt â nerth yn fy enaid.*

5. Gweddi

5. Gweddi gywir o'r Gàlon yw'r Dyſtiolaeth gywiraf o'n Mabwyſiad; ſef, ein bod mewn gwirjonedd yn Blant i Dduw. —— Gal. iv. 6. *O herwydd eich bod yn feibjon, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fâb i'ch calonnau chwi, yn llefain, Abba, Dâd.*

Cw. Pa Reol ſy gennych i gyfarwyddo eich Gweddiau?

Att. 1. Mae holl Air Duw yn ſuddjol i'n cyfarwyddo mewn Gweddi: canys am gael y pethau mae Duw yn addaw, ac am Gymmorth i wneuthur y pethau mae Duw yn orchymmyn, ac i ochelyd y pethau mae Duw yn wahardd, y dylem weddio.

2. Mae yn yr Yſgrythur amryw Ffurfiau byrrion o Weddiau'r Duwjoljon gynt, ag ſy'n ſuddjol i'n cyfarwyddo mewn Gweddi; yn enwëdig yn Llyfr y *Salmau.*

3. Y Rheol fwyaf arbennig a rhagorol, yw *Gweddi'r Arglwydd,* a ddyſgodd Criſt i'w Ddiſgybljon.

Cw. Pa un ai Pattrwn a Siampl i weddio'n gyffelyb iddi, neu ynteu Ffurf o Weddi i'w harferyd yn yr un geirjau, yw *Gweddi'r Arglwydd?*

Att. Mae'n bob un o'r ddau.

1. Mae *Gweddi'r Arglwydd* yn Siampl ac yn Battrwn, i'n dyſgu i weddio'n gyffelyb iddi: canys yr Arglwydd a ddywedodd, — Math. vi. 9. *Gweddiwch chwi fel hyn: Ein Tâd, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sanctteiddier dy Enw*; ac felly yn y blaen.

2. Mae *Gweddi'r Arglwydd* yn Ffurf hefyd o Weddi, i'w harferyd yn yr un geirjau ag a lefarodd Criſt: canys efe a ddywedodd bryd arall, *Pan weddioch, dywedwch, Ein Tâd, yr hwn wyt yn y nefoedd.* Luc xi. 2.

Cw. Pa fath Battrwn a Ffurf yw *Gweddi'r Arglwydd?*

Att. 1. Y *Pattrwn* mwyaf rhagorol, o'r *Modd,* a'r *Matter,* a'r *Drefn,* y dylid gweddio; ac yn ôl pa un y dylem lunio'n holl Weddiau.

2. Y *Ffurf* fwyaf rhagorol, yw *Gweddi'r Arglwydd*; yn fyrrach mewn geirjau, a helaethach mewn yſtyr, nâ Ffurfiau cyffredin; ac am hynny, nid yn fyrbwyll nac yn yſgafn, eithr yn bwyllog, ac yn ddyallgar jawn, y dylid ei harferyd.

3. Mae'r Weddi hon yn *Battrwn* a *Ffurf* trarhagorol, ar gyfrif yr Awdwr o honi: canys Criſt, *Doethineb Duw,* a ddyſgodd y Weddi hon i'w Ddiſgybljon; fel na ddylai neb

neb a ſo'n arddel Criſt, ſod yn eſgeulus nac yn annyallus yn eu harferiad o honi.

Cw. Ar ba achos y rhoddodd Criſt y Weddi hon i'w Ddiſgybljon?

Att. 1. Pan oedd Criſt, yn ei Bregeth ar y mynydd, yn rhybuddio'r bobl yn erbyn defod goelgrefyddol y Cenhedloedd, ag oedd yn diſgwil i gael eu gwrando er mwyn eu gweddiau ſiaradus, a'u haml eirjau; y mae Criſt, yn y gwrthwyneb i hynny, yn dyſgu ei Ddiſgybljon i weddio mewn geirjau cryno a phrydferth, llawn o yſtyr, fel hyn. —— Math. vi. 7—13. *Pan weddioch, na fyddwch ſiaradus, fel y cenhedloedd: canys y maent hwy yn tybiaid y cânt eu gwrando am eu haml eirjau. Na fyddwch gan hynny debyg iddunt hwy: canys gŵyr eich Tâd pa bethau ſy arnoch eu heiſiau cyn gofyn o honoch ganddo. Am hynny gweddiwch chwi fel hyn: Ein Tâd, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw,* &c.

2. Rhai o Ddiſgybljon Criſt, bryd arall, a ddeiſyſiaſant arno i ddyſgu iddunt weddio, megis yr oedd arferol i Athrawon ddyſgu eu Diſgybljon; ac efe a roddes iddunt y Ffurf hon. —— Luc xi. 1—4. *A bu, ac efe mewn rhyw fan yn gweddio, pan beidiodd, ddywedud o un o'i ddiſgybljon wrtho, Arglwydd, dyſg i ni weddio, megis ag y dyſgodd Joan i'w ddiſgybljon. Ac efe a ddywedodd wrthunt, Pan weddioch, dywedwch, Ein Tâd, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sanctеiddier dy Enw,* &c.

Cw. Beth a ddylech ddyſgu oddi wrth hyn?

Att. 1. Mae i mi ddyſgu oddi ymma, na ddylai neb arddel ei hun yn Griſtjon, neu'n Ddiſgybl i Griſt, heb ddyſgu gweddio: canys mae Criſt ei hun yn eu dyſgu ynghylch hynny; a phawb ag ſy'n eiddo'r Arglwydd Jeſu, a alwänt ar ei Enw ef. 1 *Cor.* i. 2.

2. Mae i mi ddyſgu oddi ymma, na fyddwyf oferſiaradus mewn Gweddi, na diſgwil i gael fy ngwrando er mwyn fy aml eirjau; canys er addyſg yn erbyn hynny y rhoddwyd y Weddi hon. —— Preg. v. 2. *Na fydd ry bryſur â'th enau, ac na fryſied dy gàlon i draethu dim ger bron Duw: canys Duw ſydd yn y nefoedd, a thithau ſydd ar y ddaear; am hynny bydded dy eirjau yn anaml.* —— Job xxxv. 13. *Diau na wrendy Duw oferedd; ac nad edrych yr Hollalluog arno.*

Cw. Pa ſawl Rhan ſy yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Tair

Att. Tair Rhan.

1. Y Rhagymadrodd; ſef, dechreuad y Weddi yn y geirjau hyn: *Ein Tâd, yr hwn wyt yn y Nefoedd.*

2. Yr Eirchion, neu'r Deiſyfiadau, yng nghorph y Weddi.

3. Y Diweddglo; ſef, ein Cyfaddefiad o'r Awdurdod, a'r Gallu, a'r Gogoniant, a berthyn i'r Duw Mawr, er Mawl iddo, yn y geirjau hyn: *Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oeſoedd. Amen.*

Cw. I ba ddiben yn bennaf y mae'r Rhagymadrodd?

Att. I gyffrôi ynnom Gariad a Pharch i Dduw, wrth Weddio: Ein *Cariad*, o herwydd mai'n *Tâd* yw efe; a *Pharch*, o herwydd mai Tâd yn y *Nefoedd* yw Duw.

Cw. Pa beth ſydd i chwi ddyſgu ychwaneg oddi wrth y Rhagymadrodd hwn; ſef, *Ein Tâd, yr hwn wyt yn y Nefoedd*?

Att. 1. Mi a ddylwn ddyſgu, mai ar Dduw ei hun y mae i mi a phob dŷn weddio. —— Sal. lxv. 2. *Ti yr hwn a wrandewi weddi, attad ti y daw pob cnawd.* Math. iv. 10.

2. Mi a ddylwn yſtyriaid yn bwyllog y pethau a berthyn i Fawredd a Dajoni Duw, i ddeffrôi ynnof Ymddygiad parchus tu ag atto: i'r diben hynny mae'r Rhagymadrodd hwn; ac i'r pwrpas hyn yr oedd y Seintjau oll yn crybwyll am rai neu gilydd o uchel Enwau, a Phriodoliaethau, a Gweithredoedd Duw, yn nechrau eu Gweddiau. 1 *Bren.* viii. 23. 2 *Cron.* xx. 6. 2 *Bren.* xix. 15. *Jer.* xxxii. 17. *Math.* xi. 25. *Act.* iv. 24. *Preg.* v. 2.

3. Mi a ddylwn ddyſgu oddi ymma, i weddio'n hyderus, megis plant yn llefain ar eu Tâd: canys ein *Tâd* y mae Criſt yn ein dyſgu i alw Duw yn y Weddi hon; o herwydd ei Doſturi tadol, a'i Barodrwydd i roddi i'r rhai ſo'n ceiſio gantho. *Math.* vii. 11.

4. Mi a ddylwn ddyſgu oddi ymma, i nesâu at Dduw gyd â Goſtyngeiddrwydd a Gwylder: canys ein Tâd yn y *Nefoedd* yw Duw, ac nid fel ein tadau daearol. *Preg.* v. 1, 2.

5. Mi a ddylwn gydnabod, ein bod ni oll yn rhwymedig i weddio dros ei gilydd, ac nid droſom ein hunain yn unig: canys *ein* Tâd, yn y Nifer Lioſog, ac nid *fy* Nhâd, yn y Nifer Unig, y'n dyſgir ei alw ef. 1 *Dim.* ii. 1. *Jago* v. 16.

Cw. Pa

Cw. Pa ſawl peth a ddylech yſtyriaid yn y Rhagymadrodd hwn?

Att. Tri pheth.

1. Y Titl, neu'r Enw wrth ba un yr ŷm yn galw Duw; ſef, *Tâd.*

2. Tâd i bwy yr ydym yn ei alw ef; ſef, *ein* Tâd ni.

3. Tâd o ba le ydyw; ſef, ein Tâd, yr hwn ſydd yn y *Nefoedd.*

Cw. Pa ffordd y mae Duw yn Dâd i chwi?

Att. 1. Mae Duw yn Dâd i ni trwy'n Creadigaeth; megis y mae efe i'r creadurjaid eraill oll. —— Mal. ii. 10. *Onid un Tâd ſydd i ni oll? onid un Duw a'n creodd ni?* 1 Cor. viii. 6. Eph. iv. 6. Deut. xxxii. 6.

2. Ar ôl i ni fyned yn blant digoſaint trwy'r Cwymp, mae Duw yn dyfod yn Dâd i ni drachefn trwy Fabwyſiad, pan y crettom yng Nghriſt Jeſu. —— Joan i. 12. *Cynnifer ag a'i derbyniaſant ef, efe a roddes iddunt allu i fod yn feibjon i Dduw, ſef i'r ſawl a gredant yn ei Enw ef.*

Cw. Pa ham y'n dyſgir i alw Duw yn *Dâd*, yn hytrach nag wrth ryw Enw arall?

Att. 1. O herwydd y dylem ni ymgais am fod yn Blant mabwyſiol i Dduw trwy Griſt, megis y mae pawb ag ſy'n gweddio Duw o'u calonnau trwy'r Ysbryd Glân. —— Gal. iv. 6. *O herwydd eich bod yn feibjon, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fâb i'ch calonnau chwi, yn llefain, Abba, Dâd.*

2. O herwydd y dylem ni fod yn gwbl ſicr o Ewyllys da, a Thoſturi tadol Duw tu ag attom, megis y mae efe yn Dâd; hyn a annogodd *y mâb afradlon* i droi a cheiſio Duw. —— Luc xv. 18, 20. *Mi a godaf, ac a âf at fy nhâd, ac a ddywedaf wrtho, Fy nhâd, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau. Ac efe a gododd, ac a aeth at ei dâd. A phan oedd efe etto ym mhell oddi wrtho, ei dâd a'i canfu ef, ac a doſturiodd, ac a redodd, ac a ſyrthiodd am ei wddf ef, ac a'i cuſanodd.* Sal. ciii. 13. 2 Cron. vii. 14. Eſay lxv. 24.

3. O herwydd mai yn Enw Criſt, ſef trwy Ffydd yng Nghyfryngdod Criſt, y dylem weddio Duw: canys trwy Griſt yn unig y mae Duw yn Dâd i ni, ac y'n derbynier ni yn Blant i Dduw. —— Gal. iii. 26. *Canys chwi oll ydych blant i Dduw trwy ffydd yng Nghriſt Jeſu.*

4. O

4. O herwydd y dylem roddi Diolch gwirioneddus i Dduw gyd â'n Gweddiau, am y Ddawn ragorol a'r Berthynas oruchel hon o'n Mabwyſiad ni. —— 1 Joan iii. 1. *Gwelwch pa fath gariad a roes y Tâd arnom, fel y'n gelwïd yn feibion i Dduw!* Phil. iv. 20.

5. O herwydd y dylem anrhydeddu Duw ym mhob peth, fel y gweddai i blant anrhydeddu eu Tâd. —— Mal. i. 6. *Mâb a anrhydedda ei dâd, a gweinidog ei feiſtr: ac o's ydwyf fi Dâd, pa le y mae fy anrhydedd?* Eph. v. 1. 1 Pedr i. 17.

Cw. Pa ham y'n dyſgir i alw Duw, *Ein* Tâd, ac nid i bob un ddywedud, *Fy* Nhâd i, ar ei ben ei hun?

Att. 1. Fe'n dyſgir i ddywedud, *Ein* Tâd, o blegid y dylem ni weddio nid yn unig dros ei gilydd, eithr hefyd yn fynych gyd â'i gilydd. —— Sal. xxxiv. 3. *Mawrygwch yr Arglwydd gyd â mi; a chyd-ddyrchafwn ei Enw ef.*

2. Fe'n dyſgir i ddywedud, *Ein* Tâd, fel yr adnabyddom Helaethrwydd Dajoni Duw; ſef, ei fod efe yn Dâd nid i ni yn unig, eithr hefyd yn Dâd cyffredinol i bawb, trwy eu creadigaeth a'u cynhaliaeth hwy yn y byd hwn. —— Mal. ii. 10. *Onid un Tâd ſydd i ni oll? onid un Duw a'n creodd ni?* Sal. cxlv. 9. Eph. iv. 6.

3. Fe'n dyſgir i ddywedud, *Ein* Tâd, fel y cofiom y Rhwymedigaeth ſy arnom, i ymddwyn tu ag at ei gilydd fel brodyr, a phlant i'r un Tâd. —— Act. vii. 26. — *Ha wŷr, brodyr ydych chwi, pa ham y gwnewch gam â'i gilydd?* — 1 Pedr iii. 8. *Byddwch oll yn unfryd, yn cydoddef â'i gilydd, yn caru fel brodyr, yn drugarogion, yn fwynaidd.* Math. v. 23, 24. 1 Dim. ii. 8. Mal. ii. 10. Job xxxi. 15.

4. Ni a ddylem nodi, nad ydys yn pallu cennad i'r gwîr Griſtjon, yn ei Weddiau dirgel, i ddywedud, *Fy* Nhâd; ſef, i alw Duw yn Dâd iddo ef ar ei ben ei hun, er Cyſſur iddo. —— Jer. iii. 4. *Oni leſi di arnaſi o hyn allan, Fy Nhâd?* Sal. lxxxix. 26.

Cw. Pa Gyſſur ſydd i chwi, o weddio ar Dduw fel *Tâd* i chwi?

Att. 1. Mae'n Annogaeth gyſſurus, i mi gredu y bydd i'm *Tâd* o'r Nef, ag ſy'n anfeidrol well ac ablach nâ holl dadau'r byd, i wrando arnaf, a rhoddi'r hyn a geiſiwyf. — Math. vii. 11. *O's chwychwi, a chwi yn ddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant; pa faint mwy y rhydd eich*

Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai a ofynnant iddo? Eſay lxiii. 15, 16. lxiv. 8, 9.

2. Mae'n Annogaeth gyſſurus, i ymddiried yn Rhagluniaeth Duw am bob peth ſydd angenrheidjol at ſy nghynhaliaeth. —— Math. vi. 31, 32. *Am hynny na ofelwch, gan ddywedud, Beth a fwytäwn? neu beth a yfwn? neu â pha beth yr ymddilladwn? — o blegid gŵyr eich Tâd nefol fod arnoch eiſiau yr holl bethau hyn.*

3. Mae'n Annogaeth gyſſurus, i ymddiried yn Nhoſturi tadol Duw am Faddeuant Pechod. —— Sal. ciii. 13. *Fel y toſturia tâd wrth ei blant, felly y toſturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.* —— Mal. iii. 17. — *Arbedaf hwynt* (medd yr Arglwydd) *fel yr arbed gŵr ei fâb ſydd yn ei waſanaethu.*

4. Mae'n Annogaeth gyſſurus, i ymddiried yn galonnog yn Nuw ſy Nhâd, pan fyddwyf yn amddifad, ac fel eſtron yn y byd hwn. —— Hoſ. xiv. 3. — *O herwydd ynnot ti y caiff yr amddifad drugaredd.* —— Sal. xxvii. 10. *Pan yw ſy nhâd a'm mam yn ſy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn.*

5. Mae'n Annogaeth gyſſurus, i obeithio am Berthynas frawdol â Chriſt; gan fod ei Dâd ef yn Dâd i minnau hefyd. —— Hebr. ii. 11. *Canys yr hwn ſydd yn ſancteiddio, a'r rhai a ſancteiddir, o'r un y maent oll: am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr.* Joan xx. 17.

6. Mae'n Annogaeth gyſſurus, i obeithio am ran o'r Etifeddiaeth wynfydedig ag ydd ar fedr Plant Duw yn y Nefoedd. —— Rhuf. viii. 17. *O's plant, etifeddion hefyd; ſef etifeddion i Ddduw, a chydetifeddion â Chriſt.* Luc xii. 32.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a ddylech ddyſgu oddi wrth Orchymmyn Criſt i alw Duw yn *Dâd* i chwi?

Att. 1. Ni a ddylem berchi ein Duw a'n Tâd, a'i ogoneddu ym mhob Gweithred dda. —— Math. v. 16. *Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynjon, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.*

2. Ni a ddylem ymddwyn yn oſtyngedig ac yn barchus yn Addoliad ein Duw a'n Tâd. —— Sal. xcv. 6. *Deuwch, addolwn, ac ymgrymmwn: goſtyngwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd ein gwneuthurwr.* Sal. xcvi. 8, 9.

3. Ni

3. Ni a ddylem ufuddhâu i Ewyllys Duw ein Tâd ym mhob peth. —— Math. vii. 21. *Nid pob un ſydd yn dywedud wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd, ond yr hwn ſydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.* Col. iii. 20.

4. Ni a ddylem ymoſtwng yn barchus ac yn ufudd i holl Geryddon ein Tâd. —— Hebr. xii. 9. —*Ni a gawſom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac a'u parchaſom hwy: onid mwy o lawer y byddwn ddaroſtyngedig i Dâd yr ysbrydoedd, a byw?*

5. Ni a ddylem geiſio bod yn gyffelyb iddo: canys i bwy y dylai plant debygu ond i'w Tâd? —— Eph. v. 1. *Byddwch gan hynny ddilynwyr Duw, fel plant annwyl.* Math. v. 44, 45, 48. 1 Pedr i. 14—17.

Cw. Pa beth yr ydych yn ei ſeddwl wrth ddywedud, *Ein Tâd, yr hwn wyt yn y* Nefoedd? Ai yn y Nefoedd yn unig y mae Duw?

Att. 1. Ni ellir cynnwys Mawredd annherfynol Duw mewn un lle neu fan: canys y mae Duw ym mhob man ar unwaith. —— 1 Bren. viii. 27. — *Wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy gynnwys di.* Sal. cxxxix. 7—10.

2. Yn y Nefoedd yn bennaf y mae Duw yn amlygu Mawredd ei Ogoniant, fel Brenin gogoneddus yn Llŷs neu Orſedd ei Frenhinjaeth. —— Eſay lxvi. 1. *Fel hyn y dywed yr Arglwydd; Y nef yw fy ngorſeddfaingc, a'r ddaear yw lleithig fy nhraed.*

3. Mae Duw yn Dâd yn y Nefoedd, nid fel tadau ar y ddaear; o blegid fod gantho bob Awdurdod a Gallu i wneuthur yr hyn oll a fynno. —— Sal. cxv. 3. *Ein Duw ni ſydd yn y nefoedd; efe a wnaeth yr hyn a fynnodd oll.* 1 Cron. xxix. 11, 12. 2 Cron. xx. 6.

4. Mae Duw yn Dâd yn y Nefoedd, o herwydd Sancteiddrwydd gogoneddus a Pherffeithrwydd gwynfydedig annhraethol ei Nàtur ef; ym mha yſtyr y mae efe yn waſtad yn Nefoedd ei Sancteiddrwydd, er ei fod yn Hollbreſennol. —— Sal. xi. 4. *Yr Arglwydd ſydd yn nheml ei ſanctteiddrwydd; gorſeddfa'r Arglwydd ſydd yn y nefoedd.* Sal. xlvii. 8. Eſay lxiii. 15.

Cw. Beth a ddylech ddyſgu oddi wrth Orchymmyn Criſt i weddio ar ein Tâd yr hwn ſydd yn y *Nefoedd*?

Att. 1. Ni a ddylem godi i fynu ein calonnau a'n meddyliau tu a'r *Nefoedd* wrth weddio: canys ar ein Tâd yr hwn ſydd yn y *Nefoedd* yr ydym yn galw. —— Galar. iii. 41. *Dyrchafwn ein calonnau a'n dwylaw at Dduw yn y nefoedd.* Sal. xxv. 1. cxxiii. 1.

2. Ni a ddylem nesâu at Addoliad Duw gyd â llawer o bwyll, a pharch, a gwylder: canys beth ŷm ni, i ymddangos o flaen y Tâd ſydd yn y *Neſoedd*, a ninnau'n bridd a llwch daearol! —— Preg. v. 1, 2. *Gwilia ar dy droed, pan fyddech yn myned i dŷ Dduw. — Canys Duw ſydd yn y nefoedd, a thithau ſydd ar y ddaear.*

3. Ni a ddylem weddio gyd â mwy o Ffydd a Hyder; gan ſod ein Tâd yn y *Nefoedd* goruwch pawb, a chantho bob Awdurdod a Gallu i wneuthur a fynno. —— Dan. iv. 35. — *Yn ôl ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu'r nefoedd, ac â thrigolion y ddaear; ac nid oes a attalio ei law ef, neu a ddywedo wrtho, Beth yr wyt yn ei wneuthur?* Job ix. 12. Eph. iii. 20.

4. Ni a ddylem ymddwyn ſel dieithriaid yn y byd; gan edrych ar y *Nefoedd*, ſef Tŷ ein Tâd, fel ein cartref, ac ymdrechu yn y blaen tu ag yno. —— 2 Cor. v. 6, 8. — *Yn gwybod tra ydym yn gartrefol yn y corph, ein bod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd. Ond yr ydym yn hŷ, ac yn gweled yn dda yn hytrach ſod oddi cartref o'r corph, a chartrefu gyd â'r Arglwydd.* Col. iii. 2 – 4.

5. Ni a ddylem weddio a deiſyf Bendith ein Tâd o'r Nef yng Nghyfryngdod Criſt, trwy'r hwn y mae efe yn Dâd i ni. —— Eph. iii. 12. *Yn yr hwn y mae i ni hyfdra, a dyfodfa mewn hyder, trwy ei ffydd ef.*

Cw. Pa ſawl un o Eirchion neu Ddeiſyfiadau ſydd ynghorph y Weddi hon?

Att. Chwech. Y tair cyntaf yn perthyn i Ogoniant Duw; a'r tair olaf ynghylch pethau angenrheidjol i'n Cyrph a'n Heneidjau ni.

Cw. Beth yw'r Arch neu'r Deiſyfiad cyntaf yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Sancteiddier dy Enw.

Cw. Am

Cw. Am beth yr ydych yn gweddio yn yr Arch gyntaf; ſef, *Sanctteiddier dy Enw?*

Att. 1. Yr ydym yn gweddio ar Dduw, i'n *cynhorthwyo ni* i ſanctteiddio ei Enw ef, a'i ogoneddu. —— Sal. cxix. 175. *Bydded byw fy enaid, fel y'th folianno di.*

2. Yr ydym yn gweddio ar Dduw, i gynhorthwyo *pawb eraill* gyd â ni i ſanctteiddio ei Enw ef, a'i ogoneddu. —— Sal. lxvii. 3. *Molianned y bobl di, O Dduw! molianned yr holl bobl dydi.* Sal. xcvi. 7, 8.

3. Yr ydym yn gweddio ar Dduw, i dreſnu pob peth a berthyn i ni yn y modd y byddo'n fwyaf gogoneddus i'w Enw ef. —— Joan xii. 28. *O Dâd! gogonedda dy Enw.* — Sal. cxv. 1. *Nid i ni, O Arglwydd! nid i ni, ond i'th Enw dy hun dôd ogoniant.*

Cw. Pa ſawl peth a ddylech yſtyriaid yn yr Arch hon, ynghylch ſanctteiddio Enw Duw?

Att. Tri pheth.

1. Pa ham y goſodir yr Arch hon yn flaenaf.

2. Pa beth a feddylier wrth *Enw* Duw.

3. Ym mha wedd y mae i ni ſanctteiddio Enw Duw.

Cw. Pa ham y goſodir yr Arch hon, ynghylch ſanctteiddio Enw Duw, yn flaenaf yng *Ngweddi'r Arglwydd?*

Att. O herwydd y dylem ni ſanctteiddio a gogoneddu Enw Duw yn flaenaf ac yn bennaf dim ym mhob peth. 1 *Cor.* x. 31. 1 *Pedr* iv. 11.

Cw. Pa ham y dylech ſanctteiddio neu ogoneddu Enw Duw yn bennaf dim ym mhob peth?

Att. 1. O blegid mai Gogoniant ei Enw yw Diben pennaf Duw ym mhob peth a wnaeth efe yn y Creadigaeth. —Diar. xvi. 4. *Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun.* Rhuf. xi. 36. Dad. iv. 11. Eſay xliii. 7, 21.

2. O blegid mai Gogoniant ei Enw yw Diben pennaf Duw yng Ngwaith y Prynedigaeth. —— 1 Cor. vi. 20. *Canys er gwerth y prynwyd chwi; gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph, ac yn eich yſbryd.*

3. O blegid mai Gogoniant ei Enw yw Diben pennaf Duw yn ei Ragluniaeth, yn ein hethol ni yn Bobl iddo ei hun trwy Fabwyſiad. —— Eph. i. 5, 6. *Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwyſiad trwy Jeſu Griſt iddo ei hun, yn ôl bodlonrwydd ei ewyllys ef, er mawl gogoniant ei râs ef.*

4. O blegid mai Gogoniant ei Enw yw Diben pennaf Duw yn yr holl Fendithion y mae efe yn rhoddi; gan fygwth eu troi yn Felldithion, oni ogoneddir ef. —— Mal. ii. 2. *Oni wrandêwch, ac oni yſtyriwch, i roddi anrhydedd i'm Henw i, medd Arglwydd y lluoedd; yna mi a anfonaf felldith arnoch chwi, ac a felldigaf eich bendithion chwi.*

5. O blegid mai ſwm pennaf yr holl Orchymmynnion yw, bod i ni ogoneddu Duw ym mhob peth. —— 1 Cor. x. 31. *Pa un bynnag gan hynny ai bwyta, ai yfed, ai beth bynnag a wneloch, gwnêwch bob peth er gogoniant i Dduw.*

6. O blegid fod Duw yn eiddigus o'i Ogoniant; ac na oddef i neb yn ddigosb eſgeuluſo ei ogoneddu ef. Y Brenin *Herod*, pan oedd y bobl yn bloeddio gwenjaith iddo, *a darawyd gan Angel yr Arglwydd* y pryd hynny, *am na roiſai y gogonedd i Dduw: a chan bryfed yn ei yſſu, efe a drengodd.* Act. xii. 21—23. —— A Gweiſion enwög Duw ei hun, *Moſes* ac *Aaron*, am ymadrodd byrbwyll, anghrediniol, yn lle anrhydeddu Enw Duw, a gauwyd allan o wlâd *Canaan*. Num. xx. 12. Eſay xlii. 8.

Cw. Beth yw *Enw* Duw?

Att. Mae *Enw* Duw mor rhyfeddol a gogoneddus goruwch pob enw, na's gall neb ei ddyall. —— Barn. xiii. 18. *Ac Angel yr Arglwydd a ddywedodd wrtho, Pa ham yr ymofynni am fy Enw, gan ei fod yn rhyfeddol?* —— Sal. cxi. 9.—*Sanctteiddiol ac ofnadwy yw ei Enw ef.* Sal. xcix. 3.

Cw. Pa beth ſydd i ni ddyall wrth *Enw* Duw yn yr Arch gyntaf o *Weddi'r Arglwydd*?

Att. Yr un peth ag a feddylier wrth *Enw* Duw yn y Trydydd Gorchymmyn; ſef,

1. Duw ei hun. *Sal.* xx. 1.
2. Titlau Duw wrth ba rai y gelwïr ef. *Ecſod.* iii. 14, 15.
3. Priodoliaethau Duw. *Ecſod.* xxxiv. 5—7.
4. Gair ac Ordinhadau Duw. *Sal.* cxxxviii. 2. *Ecſod.* xx. 24.
5. Gweithredoedd Duw, a pha bethau cyffegredig bynnag eraill a berthyn iddo, trwy ba rai y mae Duw yn gwneuthur ei hun yn adnabyddus i ni. *Rhuf.* i. 20. *Sal.* xix. 1.

Cw. Pa lun y mae i chwi ſanctteiddio Enw Duw, a'i ogoneddu?

Att. 1. Nid trwy ei wneuthur yn fwy ſanctaidd nag yw: canys y mae Sanctteiddrwydd gogoneddus Duw, yn ei Natur ei

ei hun, yn anfeidrol; ſel na's gellir chwanegu atto, na thynnu oddi wrtho. Eithr, yn

2. Trwy ddangos allan Sancteiddrwydd Duw, a'i Ogoniant, ym mhob ffordd ag allom; gan arferyd yn barchedig ac yn ſanctaidd yr holl bethau ſanctaidd a berthyn iddo, ac ymddwyn yn barchus tu ag atto ym mhob peth.

Cw. Pa ham y dywedir ymma, *Sancteiddier* dy Enw, yn hytrach na dywedud, Parcher, neu, Ogonedder dy Enw?

Att. O blegid mai Sancteiddrwydd gogoneddus Duw, yn bennaf, yw Perffeithrwydd gwynfydedig ei Natur ef, a'i holl Briodoliaethau. —— Ecſod. xv. 11. *Pwy ſydd debyg i ti, O Arglwydd! ym mhlith y duwjau? pwy ſel tydi yn ogoneddus mewn ſancteiddrwydd?*

Cw. Beth ſydd i chwi ddyſgu oddi wrth hyn?

Att. Bod yn rhaid i ni oll, ag ſy wrth natur yn bechadurus, gael ein ſancteiddio, cyn y byddom yn Bobl i Dduw. —— Leſ. xix. 2. *Llefara wrth holl gynnulleidfa meibjon Iſräel, a dywed wrthunt, Byddwch ſanctaidd, canys ſanctaidd ydwyf fi yr Arglwydd eich Duw chwi.* Hebr. xii. 14. 1 Pedr i. 15, 16.

Cw. Ym mha bethau, yn bennaf, y dylem ni ſancteiddio Enw Duw?

Att. 1. Ni a ddylem ſancteiddio a gogoneddu Enw Duw, trwy nesâu yn barchus i Addoliad Duw, ac ymddwyn yn barchus yntho. —— Leſ. x. 3. — *Dymma'r hyn a leſarodd yr Arglwydd, gan ddywedud, Mi a ſancteiddir yn y rhai a nesâant attaf, a cher bron yr holl bobl y'm gogoneddir.* Sal. xcvi. 8, 9.

2. Ni a ddylem ſancteiddio a gogoneddu Enw Duw, yn ein Diolchgarwch diffuant am ei Drugareddau ef. — 1 Theſſ. v. 18. *Ym mhob dim diolchwch: canys hyn yw ewyllys Duw yng Nghriſt Jeſu tu ag attoch chwi.* Sal. ciii. 1, 2. Act. xi. 18. xxi. 19, 20. Luc xvii. 18.

3. Ni a ddylem ſancteiddio a gogoneddu Enw Duw, trwy ddwyn aml ffrwythau addas i Dduwioldeb yn ein *bywyd.* —— Joan xv. 8. *Yn hyn y gogonedawyd fy Nhâd, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer; a diſgybljon fyddwch i mi.* Phil. i. 11. Col. i. 10.

4. Ni a ddylem ſancteiddio a gogoneddu Enw Duw yn ein holl waith a'n galwëdigaethau. —— 1 Pedr iv. 11. *O's lleſaru a wnâ neb, llefared megis geirjau Duw; o's gweini*

y mae neb, gwnaed megis o'r gallu y mae Duw yn ei roddi, fel yn mhob peth y gogonedder Duw trwy Jeſu Griſt. Math. v. 16. Joan xvii. 4. Dit. ii. 10.

5. Ni a ddylem ſancteiddio a gogoneddu Enw Duw yn holl ſeddyliau 'n calonnau, a geirjau 'n geneuau. —— 1 Pedr iii. 15. *Sancteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonnau.* —— Sal. lxxi. 8. *Llanwër fy ngenau â'th foliant; ac â'th ogoniant beunydd.* Sal. ix. 1. xxxiv. 1. cxlv. 21.

6. Ni a ddylem ſancteiddio a gogoneddu Enw Duw, trwy ſyw yn ofn Duw, ac ymddiried yn ddiamheuol yn ei Addewidjon ef. —— Eſay viii. 13. *Arglwydd y lluoedd ei hun a ſancteiddiwch; a bydded efe yn ofn i chwi, a bydded efe yn arſwyd i chwi.* —— Rhuf. iv. 20. *Nid amheuodd efe addewïd Duw trwy anghrediniaeth; eithr efe a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw.*

7. Ni a ddylem ddymunaid i Dduw gael ei adnabod a'i foliannu trwy'r holl fyd. —— Sal. lxvii. 5. *Molianned y bobl di, O Dduw! molianned yr holl bobl dydi.* Sal. xcvi. 3, 7. cxlv. 21. 2 Theſſ. iii. 1.

8. Er Gogoniant i Enw Duw, y dylem ddeiſyf cael ein gwrando yn ein Gweddiau. —— Sal. lxxix. 9. *Cynhorthwya ni, O Dduw ein jechydwriaeth! er mwyn gogoniant dy Enw: gwared ni hefyd, a thrugarhâ wrth ein pechodau, er mwyn dy Enw.*

Cw. Beth ſydd i chwi ddyſgu oddi wrth y Dyled ſydd arnoch i ſancteiddio Enw Duw?

Att. 1. Mi ddylwn i, a phob dŷn, weled y mawr berygl o fod yn ddizêl dros Ogoniant Duw; ac mor atgas a chwydog y byddaf yngolwg Duw, o's ſelly y parhâaf. —— Dad. iii. 16. *Am dy fod yn glaiar, ac nid yn oer nac yn frwd, mi a'th chwydaf di allan o'm genau.*

2. Mi ddylwn i, a phob dŷn, weled yr angenrheidrwydd ſydd i ni wîr-edifarhâu, am anghofio Gogoniant Duw, a'i eſgeuluſo dros yr amſer aeth heibio. —— Dad. iii. 19. — *Bydded zêl gennyt, ac edifarhâ.*

3. Mi ddylwn i, a phob dŷn, ochelyd ceiſio 'n gogoniant ein hunain: canys ni ddichon y cyfryw fod yn Bobl i Dduw, na chredu yntho. —— Joan v. 44. *Pa fodd y gellwch chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan ei gilydd, ac heb geiſio y gogoniant ſydd oddi wrth Dduw yn unig?* Joan xii. 43.

4. Mi

4. Mi ddylwn i, a phob dŷn, edrych na adawöm i'n calonnau fyned yn ôl pethau hudol y byd hwn: canys ni ddichon y cyfryw ogoneddu Duw, nac ymofyn am dano. — Ezec. xiv. 3. *Y gwŷr hyn, O fâb dŷn, a ddyrchafasant eu heulynnod yn eu calonnau, ac a roddasant dramgwydd eu hanwiredd ar gyfer eu hwynebau: gan ymofyn a ymofyn y cyfryw â myfi?*

5. Ni ddylai neb dwyllo eu hunain, gan dybiaid eu bod yn wîr Grist'nogjon, tra font yn esgeuluso Gogoniant Duw: canys Atheistjaid didduw, ac nid Crist'nogjon, yw'r cyfryw. — Gal. vi. 7. *Na thwyller chwi. Ni watworir Duw.* — Adn. 3. *O's tybia neb ei fod yn rhyw beth, ac yntef heb fod yn ddim, y mae efe yn ei dwyllo ei hun.*

Cw. Beth yw'r ail Arch yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Deued dy Deyrnas.

Cw. Beth yr ydych yn ei feddwl wrth ddywedud, *Deued dy Deyrnas*?

Att. Yr wyf yn deisyf ar Dduw, fy nwyn i ac eraill dan Deyrnasiad ei Râs ef yn y byd hwn, ac yn y diwedd i Deyrnas Nefoedd.

Cw. Pa ham y mae'r Arch hon yn nesaf at yr Arch flaenaf; sef, *Sancteiddier dy Enw*?

Att. Am na's gallwn ogoneddu Duw, nes delo efe yn ei Râs i deyrnasu drosom.

Cw. Pa fawl peth a ddylech ystyriaid yn yr Arch hon?

Att. Dau beth.

1. Mi a ddylwn ystyriaid beth yw Teyrnas Dduw.

2. Ym mha wedd y mae i ni weddio am ddyfod Teyrnas Dduw.

Cw. Pa beth yw *Teyrnas* Dduw?

Att. Mae *Teyrnas* Dduw o ddau fath.

1. Teyrnas gyffredinol Duw dros bob peth.

2. Teyrnas neillduol Duw dros ei Bobl briodol ei hun.

Cw. Beth yw Teyrnas *gyffredinol* Duw?

Att. Teyrnas *gyffredinol* Duw yw, ei Lywodraeth penarglwyddiaethol ef; trwy'r hon y mae Duw, fel Brenin mawr yr holl greadigaeth, yn llywodraethu pob peth yn y nefoedd, a'r ddaear, a'r moroedd, yn ei Ragluniaeth. — Sal. ciii. 19.

19. *Yr Arglwydd a barotôdd ei orſeddfa yn y nefoedd; a'i frenhinjaeth ef ſydd yn llywodraethu ar bob peth.* 2 Cor. xx. 6. 1 Cron. xxix. 11, 12. Sal. xxii. 28. Dan. iv. 34.

Cw. Beth yr ydych chwi yn ddyſgu oddi wrth Deyrnas gyffredinol Duw?

Att. 1. Mai nid am ddyfod o Deyrnas Dduw yn yr yſtyr hyn, y'm dyſgir i weddio yng *Ngweddi'r Arglwydd*; o blegid fod Duw, ym Mrenhinjaeth dragywyddol ei Ragluniaeth, yn teyrnaſu erioed ac hyd byth. —— Dan. iv. 34. —*Ei lywodraeth ef ſydd lywodraeth dragywyddol, a'i frenhinjaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.* Sal. cxlv. 13.

2. Ni a ddylem ofni Duw, y Brenin mawr tragywyddol ag ſy'n llywodraethu dros bob peth. —— Jer. x. 7. *Pwy ni'th ofna di, Brenin y cenhedloedd? canys i ti y gweddai: o herwydd ym myſg holl ddoethion y cenhedloedd, ac ym myſg eu holl deyrnaſoedd hwy, nid oes neb fel tydi.*

3. Ni a ddylem daerweddio, er i bob peth, yn nhrefn Rhagluniaeth Duw, fod er Llwyddiant ei Eglwys ef yn y byd. —— Eſay lxii. 1, 7. *Er mwyn Sïon ni thawâf, ac er mwyn Jeruſalem ni oſtegaf, hyd onid elo ei chyfiawnder hi allan fel diſgleirdeb, a'i jechydwriaeth hi fel lamp yn lloſgi. Na adêwch ddiſtawrwydd iddo, hyd oni ſicrhao, ac hyd oni oſodo Jeruſalem yn foliant ar y ddaear.*

4. Ni a ddylem ymwroli yn erbyn ofn ein gelynjon, a digwyddiadau peryglus y byd hwn; gan ymgyffuro yn Llywodraeth Duw a'i Ragluniaeth, ag ſydd yn teyrnaſu dros bob peth. —— Sal. xcvii. 1. *Yr Arglwydd ſydd yn teyrnaſu: gorfoledded y ddaear; llawenyched ynyſoedd lawer.* Sal. x. 16, 18.

Cw. Am ba Deyrnas yr ydych yn gweddio iddi ddyfod, wrth ddywedud, *Deued dy Deyrnas?*

Att. Am Deyrnas neillduol Duw dros ei Bobl ei hun; ym mha un y mae tair rhan.

1. Teyrnas yr Efengyl; trwy ba un y mae Duw yn ei Fâb yn teyrnaſu dros ei Eglwys a'i Bobl. Canys pan ddaeth Criſt i bregethu'r Efengyl, ac i oſod i fynu ei Eglwys, efe a ddywedodd, *Yr amſer a gyflawnwyd, a theyrnas Dduw a neſaodd.* Ac a ddywedodd bryd arall, *Edifarhêwch; canys neſaodd teyrnas nefoedd.* Math. x. 7. xii. 28. xiii. 31, 47. xxi. 43.

2. Teyrnas

2. Teyrnas Grâs; trwy ba un y mae Duw yn teyrnaſu yng nghalonnau ei Bobl, ac yn llywodraethu dros eu hewyllyſiau, a holl alluoedd eu heneidjau, i'w gwneuthur yn ufudd iddo. —— Luc xvii. 21. *Ac ni ddywedant, Wele, ymma; neu, Wele, accw: canys wele, teyrnas Dduw, o'ch mewn chwi y mae.* Rhuf. xiv. 17.

3. Teyrnas y Gogoniant; lle mae Angyljon Duw a'r Seintjau mewn cyflyrau gwynfydedig yn addoli Duw eu Brenin.——1 Cor. xv. 50.—*Ni ddichon cîg a gwaed etifeddu teyrnas Dduw.*

Cw. Ym mha wedd y dylech weddio am ddyfod Teyrnas Dduw?

Att. 1. Mi a ddylwn weddio am ddiſtryw teyrnas Satan, ag ſy'n wrthwyneb i Deyrnas Dduw; a thrwy ba un y mae'r diafol yn llywodraethu yng nghalonnau y rhai anufudd, nes i Râs Duw eu gwaredu. —— Col. i. 13. *Yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddiant y tywyllwch, ac a'n ſymmudodd i deyrnas ei annwyl Fâb.*

2. Mi a ddylwn weddio am Lwyddiant yr Efengyl a Chynnydd Grâs yn Nheyrnas Dduw, ſef ei Eglwys ef ar y ddaear; ſel y dêl ei Bobl ef yn y diwedd i Deyrnas Dduw yn y Nefoedd. —— Sal. cxxii. 6, 9. *Dymunwch heddwch Jeruſalem: llwydded y rhai a'th hoffant. Er mwyn tŷ'r Arglwydd ein Duw y ceiſiaf i ti ddaioni.*

Cw. Pa fodd y gwybyddwch pa un ai o Deyrnas Dduw ai o deyrnas Satan yr ydych?

Att. 1. Mi a ddylwn yſtyriaid, pa un a oes ynnof y fath Adnewyddiad ag a weithier gan Râs Duw yn y rhai a ſymmudir o feddiant Satan i Deyrnas Criſt.—— 2 Cor. v. 17. *Od oes neb yng Nghriſt, y mae efe yn greadur newydd. Yr hên bethau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.* Joan iii. 3.

2. Mi a ddylwn yſtyriaid, pa un a dorrais fy nghytundeb â phechod, ac â'm holl arferion pechadurus, i gymmeryd arnaf yn ewyllyſgar Gyfammod a Jau Criſt, ſel y caffwyſ lês oddi wrtho. —— Math. xi. 29. *Cymmerwch fy jau arnoch, a dyſgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf a goſtyngedig o gâlon: a chwi a gewch orphwyſdra i'ch eneidjau.*

3. Mi a ddylwn yſtyriaid, pa un ai ufuddhâu yr ydwyf i Satan, gan barhâu'n annuwjol; neu a ydwyf yn wîr-ufudd i ddilyn Sancteiddrwydd, a Dyledſwyddau Crefydd: canys

felly'r

felly'r ymddengys pa un ai Gwâs Duw neu wâs i'r diafol ydwyf. —— Rhuf. vi. 16. *Oni wyddoch chwi, mai i bwy bynnag yr ydych yn eich rhoddi eich hunain yn weiſion i ufuddhâu iddo, eich bod yn weiſion i'r hwn yr ydych yn ufuddhâu iddo, pa un bynnag ai i bechod i farwölaeth, ynte i ufudd-dod i gyfiawnder?*

4. Mi a ddylwn yſtyriaid, pa un a ydyw Grâs Duw yn teyrnaſu ynnof; neu ynte ſod chwantau'r cnawd yn ſy nhynnu ar eu hôl i bechod a drygioni, ag ſy'n nôd amlwg o ddeiliaid Satan. —— Joan viii. 44. *O'ch tâd diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tâd a fynnwch chwi eu gwneuthur.* —— 1 Joan iii. 8. *Yr hwn ſydd yn gwneuthur pechod, o ddiafol y mae: canys y mae diafol yn pechu o'r dechreuad.* 1 Cor. vi. 9, 10. Gal. v. 19—21. Eph. v. 5.

5. Mi a ddylwn yſtyriaid, pa un a ydwyf yn caru Mâb Duw fel ſy annwylyd, a Phlant Duw fel ſy mrodyr, ac yn delio'n gyfiawn â phawb. —— Joan viii. 42. *Yr Jeſu a ddywedodd, Pe Duw ſyddai eich Tâd, chwi a'm carech i.* —— 1 Joan iii. 10. *Yn hyn y mae'n amlwg plant Duw, a phlant diafol: Pob un ag ſy heb wneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw, na'r hwn nid yw yn caru ei frawd.* 1 Joan iv. 20. v. 1, 2.

Cw. A ydyw Proffes uchel o Grefydd yn arwydd ſicr o'ch perthynas i Deyrnas Dduw?

Att. Nag ydyw. Nid Proffes chwyddedig, ac ymâdroddion ſiaradus am Grefydd, ond Grym Duwjoldeb, ſef gallu i fyw'n wîr-grefyddol, a ddengys ein perthynas i Deyrnas Dduw. —— 1 Cor. iv. 19, 20. — *Mi a fynnaf wybod, nid ymadrodd y rhai ſy wedi chwyddo, ond eu gallu. Canys nid mewn ymadrodd y mae teyrnas Dduw, eithr mewn gallu.* Dit. i. 16. Math. vii. 20, 21.

Cw. A ydyw Zêl ynghylch Piniynau crefyddol yn arwydd ſicr o'ch perthynas i Deyrnas Dduw?

Att. Nag ydyw, heb i Rym Duwjoldeb gael ei effaith arnom, i'n gwneuthur yn ufudd i Ewyllys Duw. —— 1 Cor. vii. 19. *Enwaediad nid yw ddim, a dienwaediad nid yw ddim, ond cadw gorchymmynnion Duw.* Rhuf. xiv. 17.

Cw. Pa bethau yn bennaf a ddylech weddio am danunt, fel y bo i Deyrnas Dduw ddyfod?

Att. 1. Mi a ddylwn weddio am Ddiogelwch a Llwyddiant Eglwys Dduw; ac i deyrnaſoedd y byd hwn ddyfod yn eiddo

eiddo ein Harglwydd ni, a'i Griſt ef, i deyrnaſu arnunt yn oes oeſoedd; megis y bydd yn y diwedd. —— Dad. xi. 15. *A'r ſeithfed angel a udganodd; a bu lleſau uchel yn y nef, yn dywedud, Aeth teyrnaſoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni, a'i Griſt ef; ac efe a deyrnaſa yn oes oeſoedd.* Sal. li. 18. lxxiv. 19. lxxx. 14, 15. Eſay lxii. 6, 7.

2. Mi a ddylwn weddio ar Dduw, i ſathru Satan a'i angyljon, ag ſy'n milwrio yn erbyn Teyrnas Dduw; megis y mae Duw yn addaw. —— Rhuf. xvi. 20. *A Duw y tangnefedd a ſathr ſatan dan eich traed chwi ar frys.* Zech. iii. 2. Dad. xii. 10. Luc x. 18.

3. Mi a ddylwn weddio ar Dduw, i ddanfon Gweinidogjon ffyddlon a chymmwys i adeiladu ei Eglwys ef; megis y mae Criſt yn gorchymmyn. —— Math. ix. 37, 38. — *Y cynhauaf yn ddiau ſydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml. Am hynny attolygwch i Arglwydd y cynhauaf anfon gweithwyr i'w gynhauaf.*

4. Mi a ddylwn weddio ar Dduw, i ſendithio'r Eſengyl â Moddjon Grâs, i droi pechadurjaid o dywyllwch a meddiant Satan i Deyrnas yr Arglwydd Jeſu. — 2 Theſſ. iii. 1. *Bellach, frodyr, gweddiwch droſom ni, ar fod i air yr Arglwydd redeg, a chael gogonedd.* 1 Cor. iii. 7. 2 Cor. x. 4, 5. Rhuf. x. 1. Sal. xliv. 4. lxvii. 2. cx. 2, 3. 1 Dim. ii. 1—4.

5. Mi a ddylwn weddio ar Dduw fy nghryfhâu i ac eraill mewn Grâs, a'n cadw'n ddiargyoedd mewn Sanctteiddrwydd, i ddymunaid dyfodiad Teyrnas y Gogoniant yn Ymddanghoſiad yr Arglwydd Jeſu. —— Dad. xxii. 20. — *Amen. Yn wîr, tyred, Arglwydd Jeſu.* 1 Theſſ. iii. 12, 13.

Cw. Beth yr ydych yn dyſgu oddi wrth hyn?

Att. 1. Mi a ddylwn weled y fath ragrith atgas yw, i ni gymmeryd arnom i weddio ger bron Duw â'n geneuau, gan ddywedud, *Deued dy Deyrnas*, tra fythom yn ein calonnau yn wrthwynebwyr Duwjoldeb; fel y mae pob dŷn diras. — Rhuf. viii. 7. *O blegid ſynniad y cnawd ſydd elynjaeth yn erbyn Duw.*

2. Mi a ddylwn weled y Rhwymedigaeth ſydd arnaſi, a phob gwîr Griſtjon, i wneuthur eithaf ag allom dros gynnydd Crefydd yn y byd; onid ê, ni a fyddern yn rhwyſtr i Deyrnas Dduw, ac a dynnwn ei Felldith ef arnom. —— Math. xii. 30. *Y neb nid yw gyd â mi, ſydd yn fy erbyn; a'r neb nid*

yw

yw yn caſglu gyd â mi, ſydd yn gwaſgaru. —— Barn. v. 23. *Melldigwch Feroz (eb angel yr Arglwydd) gan felldigo melldigwch ei thrigolion; am na ddaethant yn gynhorthwy i'r Arglwydd, yn gynhorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn.*

3. Mi a allaf gredu'n hollol, y daw Eglwys Dduw yn y blaen i'r uchelder gogoneddus o berffeithrwydd a berthyn iddi, er gwaethaf i'r holl wrthwynebwyr; onid ê, ni orchymmynnaſai Duw i'w Bobl weddio am hynny. —— Eſay xlv. 19. —*Ni ddywedais wrth hâd Jacob, Ceiſiwch fi yn ofer. Myfi'r Arglwydd wyf yn llefaru cyfiawnder, ac yn mynegi pethau unjon.*

Cw. Beth yw'r drydedd Arch yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Gwneler dy Ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd.

Cw. Pa ham y dodir yr Arch hon yn drydedd yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. O blegid megis mai trwy Deyrnaſiad Duw arnom, y *ſanctteiddir Enw* Duw, yn ôl yr Arch gyntaf; felly trwy wneuthur Ewyllys Duw, y mae ei Deyrnas ef yn dyfod, yn ôl yr ail Arch.

Cw. Beth ſydd i chwi ddyſgu oddi wrth hynny?

Att. Y Dreſn ddyallus a'r Cyffylltiad perthynaſol a ddylai fod rhwng holl Eirchion ein Gweddiau; ac nid cymmyſgu yn ddiſynwyr eirchion ammherthynol am ben ei gilydd.

Cw. Pa ſawl peth a ddylech yſtyriaid yn yr Arch hon?

Att. Dau beth.

1. Y Dyled ſydd arnom i wneuthur Ewyllys Duw.

2. Y Modd y dylem ei wneuthur; ſef, megis ag y gwnelir ef yn y Nefoedd.

Cw. Beth yr ydych yn feddwl wrth *wneuthur Ewyllys Duw*?

Att. Dau beth.

1. Bod i ni ymoſtwng yn fodlongar i Ewyllys ddirgelaidd ei Gyngor a'i Ragluniaeth ef, trwy ba un y mae Duw yn ordeinio ac yn trefnu pob peth fel y rhyngo fodd iddo. —— Eph. i. 11. —*Yr hwn ſydd yn gweithio pob peth wrth gyngor ei ewyllys ei hun.* Sal. cxxxv. 6.

2. Bod

2. Bod i ni ufuddhâu, hyd eithaf o'n gallu, i'r Athrawjaeth a gynhwyfit yn Ewyllys ddadguddiedig Dduw yn yr Yſgrythurau.

Cw. Pa ham yr ydych yn galw Ewyllys Duw yn ei Ragluniaeth, yn *Ewyllys ddirgelaidd*?

Att. O herwydd na wyddom beth y mae Duw yn ragluniaethu i wneuthur, nes delo ei Weithredoedd ef i ben; ond yn unig, eu bod hwy yn unjon ac yn gyfiawn oll. —— Sal. xcvii. 2. *Cymhylau a thywyllwch ſydd o'i amgylch ef: cyfiawnder a barn yw trigfa ei orſeddfainc ef.* 1 Cor. ii. 11. Rhuf. xi. 33. Deut. xxix. 29.

Cw. Pa fath yw Ewyllys ddirgelaidd Cyngor Duw a'i Ragluniaeth?

Att. 1. Mae'n Ewyllys penarglwyddiaethol; ſef, fel y gwêl efe ei hun fod yn dda. —— Dan. iv. 35. — *Yn ôl ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu'r nefoedd, ac â thrigolion y ddaear.*

2. Mae'n Ewyllys ficr; na's dichon neb ei gyfnewid, neu ei ddiddymmu. —— Eſay xiv. 27. *Arglwydd y lluoedd a'i bwriadodd, a phwy a'i diddymma? ei law ef a eſtynnwyd, a phwy a'i try yn ôl?*

3. Mae'n Ewyllys ſanctaidd a da; fel nad yw yn gwneuthur anghyfiawnder neu greulondeb â neb. —— Sal. cxlv. 9, 17. *Dajonus yw'r Arglwydd i bawb; a'i drugaredd ſydd ar ei holl weithredoedd. Cyfiawn yw'r Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a ſanctaidd yn ei holl weithredoedd.*

Cw. A ydyw'n ddyledus arnoch i ymoſtwng yn ſodlongar ym mhob Cyflyrau blinedig i Ewyllys rhagluniaethol Duw?

Att. Ni a ddylem yn ddiammau ymoſtwng yn ſodlongar ym mhob Cyflyrau i Ewyllys rhagluniaethol Duw:

1. O blegid mai Duw ſydd yn eu trefnu. —— Job ii. 10. — *A dderbyniwn ni gan Dduw'r hyn ſy dda, ac oni dderbyniwn yr hyn ſy ddrwg?* —— Joan xviii. 11. — *Y cwppan a roddes y Tad i mi, onid yfaf ef?* Math. xxvi. 39. 1 Sam. iii. 18. Sal. xxxix. 9. Dan. iv. 35.

2. O blegid fod Duw yn anfon Blinderau arnom yn fynych o achos ein Pechodau. —— Mic. vii. 9. *Dioddefaf ddig yr Arglwydd, canys pechais i'w erbyn.* —— Galar. iii. 39. *Pa ham y grwgnach dyn byw, gŵr am gosbedigaeth ei bechod?*

3. O blegid fod Duw yn fynych, trwy Gyflyrau adfydus, yn ein tynnu oddi wrth Bechod. —— Eſay xxvii. 9. *Trwy hyn*

hyn y glanhëir anwiredd Jacob; a dymma'r holl ffrwyth, tynnu ymmaith ei bechod. Hebr. xii. 10, 11. Leſ. xxvi. 41.

4. O blegid ſod Duw yn dwyn Dioddefaint arnom, i'n dyſgu i ufuddhâu iddo ym mhob peth. —— Criſt ei hun, *er ei ſod yn fâb, a ddyſgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddioddefodd.* Hebr. v. 8.

5. O blegid ſod Duw weithjau yn gwneuthur Cyflyrau blinedig ac adfydus yn dda i ni yn y byd hwn. —— 2 Sam. xvi. 12. *Fe a allai yr edrych yr Arglwydd ar fy nghyſtudd i, ac y dyry'r Arglwydd i mi ddaioni am ei felldith ef y dydd hwn.* Sal. xciv. 12. cxix. 71. 2 Cor. i. 5.

6. O blegid ſod Eſamplau'r holl Saint yn dyſgu i ni ymoſtwng yn ſodlongar i Ewyllys rhagluniaethol Duw. —— Jago v. 10, 11. *Cymmerwch, fy mrodyr, y prophwydi, y rhai a leferaſant yn Enw'r Arglwydd, yn ſiampl o ddioddef blinder, ac o hirymaros. Wele, dedwydd yr ydym yn gadael y rhai ſy ddioddefus. Chwi a glywſoch am ammynedd Job, ac a welſoch ddiwedd yr Arglwydd; o blegid toſturiol jawn yw'r Arglwydd, a thrugarog.* Job i. 21. ii. 10. 1 Sam. iii. 18. 2 Sam. xv. 26. Sal. xxxix. 9. Math. xxvi. 39. Phil. iv. 11. 2 Cor. xii. 10.

7. O blegid ei ſod yn beryglus i anſodloni a grwgnach yn erbyn Ewyllys rhagluniaethol Duw. Hyn a ddygodd ddinyſtr ar yr *Juddewön* gynt. —— 1 Cor. x. 10. *Na rwgnechwch, megis y grwgnachodd rhai o honunt hwy, ac a'u diſtrywiwyd gan y dinyſtrydd.*

Cw. Beth yw'ch Dyledſwydd ynghylch Ewyllys ddadguddiedig Dduw?

Att. 1. Mi a ddylwn gydnabod, mai Ewyllys Duw, a ddadguddir yn yr Yſgrythurau, yw'r Rheol a roddes yr Ysbryd Glân, i'm dyſgu a'm perffeithio ym mhob Dajoni. —— 2 Dim. iii. 16, 17. *Yr holl yſgrythur ſydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Dduw, ac ſydd fuddjol i athrawjaethu, i argyoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder: Fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda.*

2. Mi a ddylwn ymgais yn ddyfal am wybodaeth ddyallus o Ewyllys Duw; fel na hudir fi, yn annoeth, ar ôl fy nychymmygion fy hun, na chyfeiliornadau dynjon eraill. — Eph.

—Eph. v. 17. *Na fyddwch annoethion, eithr yn dyall beth yw ewyllys yr Arglwydd.* Sal. cxliii. 10. cxix. 33, 34. Diar. xix. 2. Jer. v. 4. Col. i. 9, 10.

3. Mi a ddylwn ymwrthod â'm hewyllys llygredig fy hun, i ufuddhâu o'm calon i Ewyllys Duw hyd eithaf fy ngallu ym mhob peth. —— Ezra vii. 18. — *Gwnêwch yn ôl ewyllys eich Duw.* —— Math. xxvi. 39. — *Nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti.* Math. vii. 21. Sal. cxix. 112. Jago i. 22.

Cw. Ym mha fodd y'ch dyſgir yng *Ngweddi'r Arglwydd* i wneuthur Ewyllys Duw?

Att. Yn gyffelyb i'r Angyljon a wnânt Ewyllys Duw yn y Nefoedd; er na's gallaf gyrraedd yr un râdd o burdeb â hwynt tra fyddwyf yn y byd hwn.

Cw. Ym mha bethau y dylech ymegnio i wneuthur Ewyllys Duw yn gyffelyb i'r Angyljon?

Att. Mi a ddylwn ymegnio i wneuthur Ewyllys Duw,

1. Yn awyddus: canys y mae Zêl Angyljon fel fflàm dân. *Hebr.* i. 7. *Joan* iv. 34. v. 30.

2. Mi a ddylwn ymegnio i wneuthur Ewyllys Duw yn ddioed; nid ei oſod heibio hyd bryd arall: canys mae'r Angyljon yn ehedeg yn ſuan wrth Arch Duw yn ddiaros. *Sal.* ciii. 20. cxix. 60.

3. Mi a ddylwn ymegnio i wneuthur Ewyllys Duw yn ddyfal; nid yn ſwrthlyd: canys nid yw 'r Angyljon yn gor phwys ddydd na nôs, eithr yn gwneuthur Ewyllys Duw yn ddibaid. *Dad.* iv. 8. vii. 15.

4 Mi a ddylwn ymegnio i wneuthur Ewyllys Duw yn gyflawn; nid yn hannerog: canys nid rhan, ond Ewyllys Duw yn gwbl a wnâ'r Angyljon ym mhob peth. *Jago* ii. 10. *Sal.* cxix. 6.

5. Mi a ddylwn ymegnio i wneuthur Ewyllys Duw yn gyſſon; nid ambell waith: canys mae'r Angyljon yn gwneuthur Ewyllys Duw bob amſer. *Dad.* vii. 15. *Sal.* cxix. 112. 1 *Cor.* xv. 58.

6. Mi a ddylwn ymegnio i wneuthur Ewyllys Duw yn oſtyngedig ac yn hunanymwadol: canys yr Angyljon a ſwriant i lawr eu coronau o flaen yr Orſeddfaingc, i roddi 'r holl Ogoniant a'r Anrhydedd i Dduw yn unig. *Dad.* iv. 10, 13, 14.

7. Mi a ddylwn ymegnio i wneuthur Ewyllys Duw fel yn ei ŵydd a cher ei fron ef: canys y mae'r Angyljon bob amſer yn gweled Wyneb Duw yn y Nefoedd. *Math.* xviii. 10. xvii. 1.

8. Mi ddylwn i, a phawb oll, wneuthur Ewyllys Duw gyd â llawer o garedigrwydd a chymmwynaſgarwch i'w gilydd: canys mae'r Angyljon nid yn unig yn gariadol i'w gilydd, eithr hefyd yn gweini i holl Bobl Dduw yn y byd hwn. *Hebr.* i. 14.

Cw. Beth a ddylech dâyſgu oddi wrth hyn?

Att. 1. Mi a ddylwn alaru o blegid y gwrthryfel ſydd yn fy ewyllys llygredig fy hun, yn rhwyſtro fy Ufudd-dod i Ewyllys Duw. —— Rhuf. vii. 23, 24. *Yr wyf yn gweled deddf arall yn fy aelodau, yn gwrthryfela yn erbyn deddf fy meddwl, ac yn fy nghaethiwo i ddeddf pechod, yr hon ſydd yn fy aelodau. Ys truan o ddŷn wyf fi! pwy a'm gwared i oddi wrth gorph y farwölaeth hon!*

2. Mi a ddylwn brofi fy hawl yng Nghriſt trwy Ffydd, wrth yr Ufudd-dod y mae Criſt yn ddyſgu i mi roddi i Ewyllys Duw. Canys Criſt a ddywedodd, —— Math. xii. 50. *Pwy bynnag a wnâ ewyllys fy Nhâd yr hwn ſydd yn y nefoedd, efe yw fy mrawd i, a'm chwaer, a'm mam.* Joan xv. 14. Dad. xxii. 14.

3. Mi a ddylwn yſtyriaid, mai nid yn ôl eſampl pobl annuwjol y byd, eithr yn gyffelyb i Angyljon y nefoedd, y dylwn ufuddhâu i Ewyllys Duw.— Ecſod. xxiii. 2. *Na ddilyn liaws i wneuthur drwg.* 2 Cor. x. 12. 3 Joan 11.

4. Mi a ddylwn weddio ar Dduw, i roddi i mi, ac eraill, ewyllys a gallu i ufuddhâu ac ymoſtwng i Ewyllys Duw ym mhob peth. —— Phil. ii. 13. *Canys Duw yw'r hwn ſydd yn gweithio ynnoch ewyllyſio a gweithredu, o'i ewyllys da ef.* 2 Cor. iii. 5.

Cw. Am ba beth y'ch dyſgir i weddio yn yr Eirchion olaf o *Weddi'r Arglwydd*?

Att. Am y pethau a bérthyn i ni ein hunain; ſef,

1. Am Gyfreidjau'r Bywyd hwn.
2. Am Faddeuant o'n Pechodau.
3. Am Waredigaeth rhag Profedigaethau, a phob rhyw Ddrygau.

Cw. Beth

Cw. Beth yw'r bedwaredd Arch neu Ddeiſyfiad yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddjol.

Cw. Pa ſawl peth a ddylech yſtyriaid yn flaenaf yn yr Arch hon; ſef, *Dyro i ni heddyw ein bara beunyddjol*?

Att. Tri pheth.

1. Gan bwy yr ydwyf yn ceiſio; ſef, gan fy *Nhâd, yr hwn ſydd yn y Neſoedd*; yr hwn ſydd ewyllyſgar ac abl i roddi.

2. I bwy yr ydwyf yn ceiſio; ſef, *i ni*; nid i mi fy hun yn unig, eithr i eraill hefyd.

3. Pa beth wyf yn geiſio; ſef, *bara beunyddjol*; hynny yw, pob peth angenrheidjol tu ag at ein cynhaliaeth.

Cw. Beth ſydd i chwi ddyſgu oddi wrth hyn?

Att. 1. Mi a ddylwn yſtyriaid, mai trwy Rôdd Duw yn nhrefn ei Ragluniaeth, y mae i ni gael pob peth a berthyn i'n cynhaliaeth ni. —— Act. xiv. 17. — *Eſe ſydd yn rhoddi glaw o'r neſoedd i ni, a thymhorau ffrwythlon, ac yn llenwi ein calonnau ni â lluniaeth, ac â llawenydd.* —— Act. xvii. 25. — *Gan roddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll.* Sal. civ. 14. cxxxvi. 25. cxlv. 15.

2. Mi a ddylwn yſtyriaid Dajoni Duw, yn cenhadu i ni geiſio'r Trugareddau a berthyn i'r bywyd hwn, yn neſaf i'r pethau a berthynant i'w Ogoniant ef. —— Math. vi. 32, 33. — *Fe wŷr eich Tâd nefol fod arnoch eiſiau yr holl bethau hyn. Eithr yn gyntaf ceiſiwch deyrnas Dduw, a'i gyfjawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg.*

3. Mi a ddylwn yſtyriaid, ein bod ni oll yn rhwymedig i weddio am gynhaliaeth ddigonol i bawb; ac am hynny, o's byddwn yn ddidoſturi i'r rhai ſo mewn eiſiau, ni fyddwn yn rhagrithiol yn ein Gweddiau. —— Phil. ii. 4. *Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo eraill hefyd.* 1 Dim. v. 8.

Cw. Pa ham y mae'n rhaid i ni weddio ar Dduw, i *roi* i ni ein bara beunyddjol, o's ydym yn meddu bara, ac yn gweithio am dano?

Att. 1. Ni a ddylem weddio am ein bara beunyddjol, i addef, nad ydym yn ei haeddu, eithr mai o Rôdd Duw y

mae'n dyfod. —— Gen. xxxii. 10. *Ni ryglyddais y lleiaf o'th holl drugareddau di.* Jago i. 17. Job i. 21.

2. Ni a ddylem weddio am ein bara beunyddjol, canys eiddo Duw yw pob peth ſydd gennym. Canys fel hyn y dywed Dduw: —— Job xli. 11.—*Beth bynnag ſydd dan yr holl nefoedd, eiddoſi yw.* Deut. x. 14. Sal. xxiv. 1.

3. Ni a ddylem weddio am ein bara beunyddjol, fel y caffom Fendith Dduw arno; megis y mae Duw yn addaw.—Sal. cxxxii. 15. *Gan fendithio y bendithiaf eu lluniaeth.* 1 Dim. iv. 5.

Cw. Pa ham y'ch dyſgir i weddio am *fara*, ac nid am ryw bethau eraill?

Att. 1. Am ſod *bara* yn arwyddocâu pob peth angenrheidjol at gynhaliaeth ein bywyd naturjol; ac am mai'r peth pennaf, ſef ffon y bywyd, yw bara. *Lef.* xxvi. 26. *Ezec.* iv. 16.

2. Am ſod *bara*, yn yr Yſgrythur, yn arwyddocâu Criſt a'i Ddonjau; ag ſy'n angenrheidjol i'n bywyd ysbrydol ni. —— Joan vi. 51. *Myfi yw'r bara bywjol, yr hwn a ddaeth i wared o'r nef. O's bwyty neb o'r bara hwn, eſe a fydd byw yn dragywydd.*

3. Fe'n dyſgir i weddio am *fara*, nid am foethau a phethau afreidjol; o blegid y dylem ffrwyno'n trachwantau, a bodloni i gymmaint ſo raid i ni wrtho.——1 Dim. vi. 8. *O bydd gennym ymborth a dillad, ymfodlonwn ar hynny.* Hebr. xiii. 5. Diar. xxx. 8, 9. xxiii. 3.

4. Fe'n dyſgir i weddio am *fara*, ſef am gynhaliaeth ddigonol, i'n dodi mewn côf, am fod yn barod i gyfrannu a gwneuthur dajoni â'r maint ſo gennym yn chwaneg nâ'n cyfraid. —— 1 Dim. vi. 17—19. *Gorchymmyn i'r rhai ſy oludog yn y byd ymma,— ar iddunt wneuthur dajoni, ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, fod yn hawdd ganddunt roddi, a chyfrannu; yn tryſori iddunt eu hunain ſail dda erbyn yr amſer ſydd ar ddyfod, fel y caffont afael ar y bywyd tragywyddol.*

Cw. Pa ham y'ch dyſgir i weddio dros *heddyw* am fara beunyddjol, megis dros *un dydd*, ac nid dros fis, neu flwyddyn?

Att. 1. I'm dyſgu i weddio yn ddyfal ar Dduw'n ſeunyddjol, ſef bob dydd o'm bywyd, am y pethau ſy'n angenrheidjol

jol i mi. —— Sal. lv. 17. *Hwyr, a borau, a hanner dydd, y gweddiaf, a byddaf daer; ac efe a glyw fy lleferydd.*

2. Fe'm dyſgir i weddio am fara *beunyddjol*, i'm dodi mewn côf, i fodloni i'm cyfreidjau preſennol; ac nid i flino fy hun â gofalon trafferthus dros yr amſer i ddyfod. —Math. vi. 34. *Na ofelwch gan hynny dros drannoeth: canys trannoeth a ofala am ei bethau ei hun. Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.*

3. Fe'm dyſgir i weddio am fara *beunyddjol*, megis dros un dydd, o blegid anſertenrwydd fy hoedl, ac na's gwn a fyddafi byw drannoeth. —— Diar. xxvii. 1. *Nac ymffroſtia o'r dydd yfory: canys ni wyddoſt beth a ddigwydd mewn diwrnod.* Jago iv. 14.

Cw. Pa ham y'ch dyſgir i ddywedud, *Dyro i ni heddyw* ein *bara beunyddjol*, fel pe bai yn eiddo ni?

Att. 1. I ddyſgu, na bo i ni gymmeryd eiddo neb trwy anghyfiawnder; canys yna yr ŷm yn dwyn bara eraill oddi arnunt, ac nid yn bwyta ein bara 'n hunain. —— Rhuf. xii. 17. — *Darperwch bethau oneſt yngolwg pob dŷn.*

2. I ddyſgu, na fyddom fyw yn fuſgrell na ſegur, eithr llafurio'n ddïwyd am gynhaliaeth oneſt, yn y gwaith a'r galwäd a drefnodd Duw i ni; heb yr hyn ni ddichon neb fwyta ei fara ei hun, ag y fyddo'n eiddo cywir iddo yngolwg Duw. —— Gen. iii. 19. *Trwy chwŷs dy wyneb y bwytâi fara.* —— 2 Theſſ. iii. 10. — *Hyn a orchymmynnaſom i chwi; O's byddai neb na fynnai weithio, na chai fwyta chwaith.* Eph. iv. 28.

3. I ddyſgu i ni lafurio am hawl gyfammodol yng Nghriſt: canys megis yng Nghwympo *Adda* y collaſom ein hawl yn holl Greadurjaid a Bendithion Duw, trwy Griſt y rhoddir i ni hawl o honunt drachefn. —— 1 Cor. iii. 22, 23. — *Y mae pob peth yn eiddoch chwi; a chwithau yn eiddo Criſt.*

Cw. Pa fodd y mae dynjon ſegur, annuwjol, nad ŷnt yn gweddio Duw, nac yn llafurio am eu bara beunyddjol mewn unrhyw alwäd oneſt, yn cael mwy nâ digon o gynhaliaeth?

Att. 1. O herwydd Haeljoni Duw; ag fy'n dyſgu ni i wneuthur yn dda i bawb. —— Math. v. 45. *Fel y byddoch blant i'ch Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd: canys y mae efe yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn.*

2. O herwydd ſod Duw yn diſgwil i'r annuwjol adnabod ei Ddajoni, ac i'w Drugareddau ef eu tywys hwynt i edifeirwch; ac onid ê, hwy a dalant yn brîd am danunt yn y diwedd. —— Rhuf. ii. 4, 5. *A wyt ti yn diyſtyru golud ei ddajoni ef, a'i ddioddefgarwch, a'i ymaros, heb wybod ſod dajoni Duw yn dy dywys di i edifeirwch? Eithr yn ôl dy galedrwydd, a'th gàlon ddiedifeiriol, wyt yn tryſori i ti dy hun ddigofaint erbyn dydd y digofaint, a dadguddiad cyſjawn farn Duw.*

3. O herwydd ſod Duw weithjau yn caniattâu i'r annuwjol y pethau maent yn chwennych, er dinyſtr iddunt. —— Sal. lxxviii. 30, 31. *Ni ommeddwyd hwynt o'r hyn a flyſiaſant: er hynny tra yr ydoedd eu bwyd yn eu ſafnau, digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt, ac a laddodd y rhai braſaf o honunt, ac a gwympodd etholedigion Iſräel.*

Cw. Pa ſodd y mae llawer yn dlawd, ac yn fynych mewn eiſiau o fara beunyddjol?

Att. 1. Am ſod llawer o honunt yn ſegur, ac na fynnant weithio; a llawer yn gyndyn, na fynnant weddio am dano. —— Jago iv. 2. — *Nid ydych yn cael, am nad ydych yn gofyn.*

2. Er ei ſod yn brin weithjau ar Bobl dduwjol, etto mae Duw yn eu diwallu. Yr hwn ſy'n porthi cywjon y cigfrain, ni âd i'w Blant newynu; ac mae'r briwſion ſy ganthunt yn rhoi bodlonrwydd mwy iddunt, trwy Fendith Dduw, nâ thryſorau mawrjon yr annuwjol. —— Sal. xxxvii. 16. *Gwell yw'r ychydig ſydd gan y cyfiawn, nâ mawr olud annuwjoljon lawer.* —— Sal. iv. 7. *Rhoddaiſt lawenydd yn fy nghàlon, mwy nâ'r amſer yr amlhaodd eu hŷd a'u gwîn hwynt.*

3. Mae Duw yn trefnu cyflwr prin ac iſel i rai o'i Bobl, er llês iddunt: canys mae llawnder yn tywyllu'r dyall, yn ennyn chwantau cnawdol, yn porthi balchder, yn hudo pobloedd i anghofio Duw, ac yn rhwyſtro eu Jechydwriaeth. — Math. xix. 23. *Yna y dywedodd yr Jeſu wrth ei ddiſgybljon, Yn wîr y dywedaf i chwi, mai yn anhawdd yr â goludog i mewn i deyrnas nefoedd.*

Cw. Beth ſydd i chwi ddyſgu oddi wrth y cwbl a ddywedaſoch ynghylch yr Arch hon; ſef, *Dyro i ni heddyw ein bara beunyddjol?*

Att. 1.

Att. 1. Mi a ddylwn ymwrthod â chybydd-dod, a chwantau pechadurus am bethau'r byd hwn: canys am fara beunyddjol, ſef cymmaint ag ſydd ddigonol i'm cynhaliaeth bresennol, y mae Criſt yn dyſgu i mi geiſio. —— Sal. cxix. 36. *Goſtwng fy nghàlon at dy dyſtiolaethau, ac nid at gybydd-dra.* 1 Dim. vi. 9, 10. Rhuf. xiii. 14. Luc xii. 19, 20.

2. Mi a ddylwn fwrw fy holl ofal ar Dduw, gan ymddiried yn ei Ragluniaeth, am beth bynnag ſydd angenrheidjol: canys y mae efe yn cenhadu i mi geiſio hynny gantho. —— 1 Pedr v. 7. *Gan fwrw eich holl ofal arno ef; canys y mae efe yn gofalu droſoch chwi.* Sal. xxxvii. 3. Phil. iv. 6. Math. vi. 25.

3. Mi a ddylwn ddyfalbarhâu mewn Gweddi: canys, megis y mae arnaf eiſiau fy mara beunyddjol bob dydd, felly y dylwn ddyfalweddio bob dydd ar Dduw. —— 1 Theſſ. v. 17. *Gweddiwch yn ddibaid.* Eph. vi. 18. Col. iv. 2. Luc xviii. 1.

4. Mi a ddylwn làfurio'n ddyfal yn fy ngalwäd, a gweddio'n ddifrifol hefyd, am bob peth angenrheidjol: canys heb Weddi, ni's gallaf gael dim gyd â Bendith; ac heb ddyfalwch yn fy ngwaith a'm galwäd, ni wrandewïr fy Ngweddiau. —— Diar. xiii. 4. *Enaid y diog a ddeiſyf, ac ni chaiff ddim: ond enaid y diwyd a wnêir yn frâs.*

5. Mi a ddylwn yſtyriaid yn ddiolchgar, mai o Rôdd Duw yr wyf yn cael fy mara beunyddjol; ſef, yr holl foddjon ſy'n cynnal fy mywyd. —— Deut. viii. 10, 17, 18. *Pan fwyrêych, a'th ddigoni, yna y benditbi'r Arglwydd dy Dduw:* —— *Rhag dywedud o honot yn dy gàlon, Fy nerth fy hun, a chryfder fy llaw, a barodd i mi y cyfoeth hwn. Ond cofia'r Arglwydd dy Dduw; o blegid efe yw'r hwn ſydd yn rhoddi nerth i ti i beri cyfoeth.* Sal. lxviii. 19. Hoſ. ii. 8, 9.

6. Mi a ddylwn fodloni i gyfreidjau'r bywyd hwn, o's câf ddigonedd o fara beunyddjol a chynhaliaeth: canys nid oes i mi weddio am bethau i borthi fy mlys a'm chwantau. —— 1 Dim. vi. 8. *O bydd gennym ymborth a dillad, ymfodlonwn ar hynny.* Jago iv. 3. Rhuf. xiii. 14.

7. Mi a ddylwn waſanaethu Duw â'm holl gàlon, ſel y dêl Bendith Dduw ar fy mwyd, a'm diod, a'm holl foddjon: canys felly y byddant yn ſuddjol i'm diwallu, ac i roddi bodlonrwydd cyſſurus i mi. —— Eccſod. xxiii. 25. *Chwi a*

waſanaethwch yr Arglwydd eich Duw, ac efe a fendithia dy fara, a'th ddwfr, a mi a dynnaf ymmaith bob cleſyd o'th fyſg. Math. iv. 4. Diar. x. 22. Job xx. 22. Deut. xxviii. 8. Hag. i. 6. Deut. xxviii. 38. Mic. vi. 14, 15.

Cw. Beth yw'r bummed Arch yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Maddau i ni ein dyledjon, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr.

Cw. Pa ham y mae'r Arch hon yn neſaf at yr Arch am *fara beunyddjol*?

Att. 1. O blegid ei fod cyn rheitied gweddio am faddeuant beunyddjol, ag am fara beunyddjol; o herwydd ein pechodau beunyddjol yn erbyn Duw. —— Preg. vii. 20. *Canys nid oes dŷn cyfiawn ar y ddaear, a wnâ ddajoni, ac ni phecha.* Jago iii. 2.

2. O blegid na ddichon ein bara beunyddjol, na'r llawndid mwyaf, roddi cyffur, na gwîr lês, tra fyddo'n pechodau heb eu maddau, a'n heneidjau mewn perygl beunyddjol o golledigaeth. —— Math. xvi. 26. *Canys pa lesâad i ddŷn, o's ynnill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?* Luc xii. 16—21.

3. O blegid na allwn ddiſgwil cael ein gwrando gan Dduw am Drugareddau tymhorol, tra fytho'n pechodau heb eu maddau. —— Eſay lix. 2. *Eich hanwireddau chwi a yſgarodd rhyngoch chwi a'ch Duw, a'ch pechodau a guddiaſant ei wyneb oddi wrthych, fel na chlywö.*

Cw. Pa ſawl peth ſydd i chwi ddal ſulw arnunt yn yr Arch hon; ſef, *Maddau i ni ein dyledjon, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr*?

Att. Pedwar peth.

1. Y peth ag ŷm ni yn ddeiſyf; ſef, *Maddau ein dyledjon:* hynny yw, *Maddau ein pechodau*; ſel y dywaid Criſt mewn man arall *(Luc* xi. 4.) Yr hyn a gynnwys yntho bob peth a berthyn i'n Jechydwriaeth; megis y mae *bara beunyddjol* yn cynnwys pob peth a berthyn i'n cynhaliaeth.

2. Ar bwy yr ŷm yn deiſyf maddeuant; ſef, nid ar y Pâb, na'r Seintjau, fel y Pabyddjaid deillion; ond ar y *Tâd, yr hwn ſydd yn y Nefoedd.* —— Luc v. 21. — *Pwy*

a

a ddichon faddau pechodau ond Duw yn unig? Eſay xliii. 25. Dan. ix. 9.

3. I bwy y dylem ddeiſyf maddeuant; ſef, i ni ein hunain, ac i eraill hefyd. —— Jago v. 16. *Cyffeſwch eich camweddau bawb i'w gilydd, a gweddiwch dros ei gilydd.*

4. Ym mha gyffelyb yr ŷm yn deiſyf ar Dduw i faddau'n dyledjon ni; ſef, *fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr.* —— Math. vi. 14, 15. *O blegid o's maddeuwch i ddynjon eu camweddau, eich Tâd nefol a faddau hefyd i chwithau: eithr oni faddeuwch i ddynjon eu camweddau, ni faddau eich Tâd eich camweddau chwithau.*

Cw. Pa fath ddyledjon yw'ch pechodau chwi?

Att. 1. Mae'n heſgeuluſiad ni o'r holl Ddyledſwyddau, a'r pethau oll oedd Duw yn orchymmyn, a adawſom neb wneuthur, fel dyledjon mawrjon heb eu talu, a Chyfiawnder Duw yn ein gofyn o'u plegid.

2. Mae'r holl bethau a wnaethom, mewn meddwl, gair, a gweithred, ag oedd Duw yn wahardd, yn ddyledjon trymmion, o herwydd y Gosbedigaeth dragywyddol ſydd ddyledus i ni o'u plegid.

3. Mae'r holl Drugareddau tymhorol, a'r Breintjau yſbrydol, a roddodd Duw i ni i'w ogoneddu eſ, ac a ddarfu i ni gamarferyd, fel ſwm mawr o ddyled na thalaſom erioed y corph na'r llôg o hono.

Cw. Ym mha yſtyr ym mhellach y mae'n pechodau ni fel dyledjon?

Att. 1. Mae'n pechodau fel dyled gweiſion, y rhai, yn lle gwaſanaethu, a ddrygant eu meiſtred: canys drygau aneirif a wnaethom yn erbyn Duw, yn lle ei waſanaethu eſ; a Chôsb dragywyddol yw'r gyflog ſy ddyledus i ni. —— Rhuf. vi. 23. *Canys cyflog pechod yw marwölaeth.* Jago i. 15. Gen. ii. 17. Ezec. xviii. 4.

2. Mae'n pechodau fel dyled rhai a dderbyniant lawer yn echwyn, ac yn afradu'r cwbl yn ofer, na's gallant gyfiawnu byth: canys felly mae'r talentau a dreuliaſom ni yn anfuddjol, heb wneuthur dajoni, na gogoneddu Duw; yr hyn a dynn Farn drom arnom. —— Math. xxv. 30. *Bwriwch allan y gwâs anfuddjol i'r tywyllwch eithaf: yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.*

3. Mae'n pechodau fel dyled y rhai a dorrant rwymedigaeth eu cytundeb; i'r rhai y mae'r *penyd* a gynhwyſir

yntho

yntho yn ddyledus: canys felly mae'r holl Farnau a'r Melldithion a gynhwyſir yng Nghyfammod Duw yn ddyledus i ni. —— Gal. iii. 10. *Cynnifer ag y ſy o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent: canys 'ſgrifennwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a 'ſgrifennir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt.*

4. Mae'n pechodau fel dyled rhai a 'sbeiliant eraill o'u meddiant pennaf, ac a ddygant goron eu Brenin oddi am ei ben; na's gellir dywedud faint y gôsb a haeddant: canys felly yr ŷm ni yn ysbeilio Duw o'i Ogoniant; y peth annwylaf yn ei helw. —— Mal. iii. 9. *Melldigedig ydych trwy felldith; canys chwi a'm hysbeiliaſoch i, ſef yr holl genedl hon.*

5. Mae'n pechodau fel dyled *mawr jawn*, heb fôdd i dalu'r hatling leiaf o hono: canys pechodau aneirif ſy gennym; pe gwelem mor aml ydynt, fe lanwai'n calonnau o ddychryn. —— Sal. xl. 12. *Drygau annifeiriol a'm cylchynaſant o amgylch: fy mhechodau a'm daliaſant, fel na allwn edrych i fynu: amlach ydynt nâ gwallt fy mhen; am hynny y pallodd fy nghàlon ynnof.* Job xxii. 5.

6. Mae'n pechodau fel dyled ag y mae cwyn eiſioes o'i blegid, na ŵyr y dyledwr pa gynted y theſtir ef: canys ni wyddom ni pa gynted y'n gwyſier i'r Farn ger bron Duw, i atteb am ein pechodau. —— Hoſ. iv. 1. *Meibjon Iſräel, gwrandêwch air yr Arglwydd; canys y mae cwyn rhwng yr Arglwydd a thrigolion y wlâd, am nad oes gwirjonedd, na thrugaredd, na gwybodaeth o Ddduw yn y wlâd.* Hoſ. xii. 2.

7. Mae pechod fel dyled a ddug garchar tragywyddol o'i blegid, oni ellir, trwy ryw jawn, a chyttundeb â'r goſynnwr, gael myned yn rhydd oddi wrtho: canys oni cheiſiwn ni Gymmod â Duw yn ebrwydd, trwy'r Jawn a'r Cyfammod ſydd yng Nghriſt, ni's gallwn fyned yn rhydd oddi wrth bechod byth. — Math. v. 25, 26. *Cyttuna â'th wrthwynebwr ar frŷs, tra fyddech ar y ffordd gyd ag ef; rhag un amſer i'th wrthwynebwr dy roddi di yn llaw'r barnwr, ac i'r barnwr dy roddi at y ſwyddog, a'th daflu yngharchar. Yn wîr meddaf i ti, Ni ddeui di allan oddi yno hyd oni thalech y ffirling eithaf.* Job xxi. 30. Math. xiii. 50. Luc xii. 58, 59.

Cw. Ym

Cw. Ym mha ffordd y mae i chwi ddiſgwil cael Maddeuant?

Att. Trwy Griſt Jeſu yn unig. O blegid, yn

1. Efe a ddioddefodd gôsb ein pechodau ni. *Eſay* liii. 5. 1 *Pedr* ii. 24. *Gal.* iii. 13.

2. Efe a gyflawnodd gyfiawnder ac ufudd-dod y Ddeddf drofom ni. *Rhuf.* viii. 3, 4. 2 *Cor.* v. 21.

3. Efe a roddodd ei Einioes yn Jawn ac yn Aberth am bechod. *Eph.* v. 2. *Rhuf.* iii. 25.

4. Efe a'n prynodd, trwy roddi ei hun yn Bridwerth am danom. *Marc* x. 45. 1 *Pedr* i. 18, 19. *Eph.* i. 7.

5. Efe a dywalldodd ei Waed, i'n glanhâu a'n puro ni. 1 *Joan* i. 7. *Hebr.* ix. 12, 13, 14.

6. Efe a ddyrchafodd i'r Nefoedd, i eirjol drofom ger bron Duw. 1 *Joan* ii. 1, 2. *Hebr.* vii. 25. *Rhuf.* viii. 34.

7. Trwy Griſt y mae Duw yn ein cymmodi ag ef ei hun, fel na chyfrifer ein pechodau i ni. 2 *Cor.* v. 18, 19. *Rhuf.* v. 10. *Col.* i. 20, 21.

Cw. Pa Freintjau eraill a berthyn i Jechydwriaeth, ag fy'n cydgerdded â Maddeuant?

Att. Yr holl Freintjau a'r Bendithion a bwrcafodd Criſt, y rhai a ficrhëir i Bobl Duw yn Addewïdjon y Cyfammod Grâs. Megis,

1. Heddwch â Duw, ac Ymwared oddi wrth ei Ddigofaint. *Rhuf.* v. 10.

2. Cyfiawnhâad; fef, cael ein derbyn fel rhai cyfiawn, a chymmeradwy yngolwg Duw. *Act.* xiii. 39. 1 *Cor.* vi. 11.

3. Mabwyfiad; i fod yn Blant i Dduw, ac yn Frodyr i'r Arglwydd Jeſu. *Joan* i. 12. *Gal.* iv. 4, 5.

4. Dyfodfa hyderus, trwy Griſt, ger bron Duw, mewn Gweddi. *Eph.* iii. 12. *Hebr.* iv. 16.

5. Cyffur a gorfoledd ysbryd ym mhob cyfiwr. *Math.* ix. 2. *Rhuf.* v. 1—3.

6. Hyder cyffurus yn erbyn ofn angau a barn. 1 *Cor.* xv. 55—57. *Rhuf.* viii. 35—39.

7. Etifeddiaeth ogoneddus, yn ôl angau, gyd â Duw a Chriſt yn y Nefoedd. *Rhuf.* viii. 17. 1 *Pedr* i. 3, 4.

Cw. Pa fâth y ddylech chwi fod, fel y caffoch Faddeuant gan Dduw?

Att. 1. Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mhechodau, a gwîr-ediſarhâu o'u plegid, gan droi oddi wrth fy holl ffyrdd a'm harferion

harſerion llygredig. —— Luc xiii. 3. — *Onid edifarhêwch, chwi a ddiſethir oll.* —— Diar. xxviii. 13. *Y neb a guddio ei bechodau, ni lwydda: ond y neb a'u haddefo, ac a'u gadawö, a gaiff drugaredd.* 1 Joan i. 9. Act. iii. 19. Deut. xxix. 19, 20.

2. Mae'n rhaid i mi wîr-gredu yn yr Arglwydd Jeſu; a dangos gwirjonedd fy Ffydd trwy fy Ufudd-dod iddo. —— Joan iii. 36. *Yr hwn ſydd yn credu yn y Mâb, y mae ganddo fywyd tragywyddol: a'r hwn ſydd heb gredu i'r Mâb, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.* Dad. xxii. 14.

3. Mae'n rhaid i mi roddi fy hun i Dduw mewn Cyfammod, gan ymrôi i fod yn Ddiſgybl cywir i Griſt. —— Math. xi. 29. *Cymmerwch fy jau arnoch, a dyſgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf a goſtyngedig o gàlon: a chwi a gewch orphwyſdra i'ch eneidjau.*

4. Mae'n rhaid i mi ddyfal-addoli Duw yn ei holl Ordinhadau; fel y caffwyf Râs i fyw yn heddychol ac yn ſanctaidd. —— Hebr. xii. 14. *Dilynwch heddwch â phawb, a ſancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd.*

5. Mae'n rhaid i mi, o'm càlon, faddau i'r rhai a'm drygant i, o's mynnaf i Dduw faddau i minnau. —— Math. vi. 15. *Oni faddeuwch i ddynjon eu camweddau, ni faddau eich Tâd eich camweddau chwithau.* Jago ii. 13.

Cw. A ellwch chwi faddau'ch gwrthwynebwyr, fel y mae Duw yn maddau, a'u rhyddhâu oddi wrth gôsb eu pechodau?

Att. Na allaf; eithr fy nyled yw,

1. Na bo i mi chwennych ymddial arnunt, na gorfoleddu yn eu drygfyd. —— Rhuf. xii. 19. *Nac ymddielwch, rai annwyl, ond rhoddwch le i ddigofaint: canys y mae'n ſgrifennedig, I mi y mae dial; myfi a dalaf, medd yr Arglwydd.* —— Diar. xxiv. 17, 18. *Pan ſyrthio dy elyn, na lawenycha; a phan dramgwyddo, na orfoledded dy gàlon: rhag i'r Arglwydd weled, a bod hynny yn ddrwg yn ei olwg ef, ac iddo droi ei ddîg oddi wrtho ef attat ti.*

2. Na bo i mi eſgeuluſo gweddio ar Dduw, i roi Tröedigaeth a Maddeuant iddunt. —— Math. v. 44. — *Gweddiwch dros y rhai a wnêl niwaid i chwi, ac a'ch erlidiant.*

3. Na

3. Na bo i mi attal fy nghariad a'm cymmwynaſgarwch oddi wrthunt, pan ſo ar fy llaw, er na's gallaf eu cymmeryd yn gyfeillion mynweſol nes gweled Tröedigaeth ynddunt. — Math. v. 44. *Cerwch eich gelynjon, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnêwch yn dda i'r ſawl a'ch casâant.* —— Rhuf. xii. 20. *O's dy elyn a newyna, portha ef; o's ſycheda, dyro iddo ddiod: canys wrth wneuthur hyn, ti a bentyrri farwor tanllyd am ei ben ef.*

Cw. A ydyw yn anghyfreithlon i geryddu a chosbi y rhai a wnânt yn ddrygionus, ac a ddeliant yn gamweddus â chwi?

Att. Nac ydyw; o blegid ſe fyddai eu gadael yn ddigerydd, yn annogaeth i anghyfiawnder a drygioni. Canys,

1. Fe ddylai'r neb ſydd mewn awdurdod, gosbi drwgweithredwyr. —— Rhuf. xiii. 4. — *O blegid gweinidog Duw yw efe, dialydd llîd i'r hwn ſydd yn gwneuthur drwg.*

2. Fe ddylai'r neb a wyppo am ddrwgweithredoedd eraill, gyhuddo arnunt, a'u dwyn dan gôsb a cherydd. —— Lef. v. 1. *O's pecha dŷn, a chlywëd llais llw, ac yntef yn dyſt naill ai'n gweled ai'n gwybod; oni fynega, yna efe a ddŵg ei anwiredd.*

3. Fe ddylai pawb dalu eu dyled, a gwneuthur jawn am y camwedd a'r colled a font yn achos o hono i eraill. ——Ecſod. xxii. 1, 14. *O's lledratta un ŷch neu ddafad, a'i ladd, neu ei werthu, taled bûm ŷch am ŷch, a phedair dafad am ddafad. O's bentkyccia un gan ei gymmydog ddim, a'i friwo, neu ei farw, heb fod ei berchennog gyd ag ef; gan dalu taled.* —— Luc xix. 8. *A Zaccëus a ddywedodd, — O's dugum ddim o'r eiddo neb trwy gamachwyn, yr ydwyf yn ei dalu ar ei bedwerydd.*

Cw. Pa bryd y mae dynjon yn troſeddu yn eich herbyn?

Att. Pan fyddont yn gwneuthur niwaid i mi yn fy mherſon, neu yn fy meddiant, neu yn fy mherthynaſau, neu yn fy ngalwëdigaeth, neu yn fy enw da.

Cw. A ydyw'n rhydd i chwi ymgyfreithio am bob camwedd neu golledd a wnelo dynjon i chwi?

Att. 1. Gwell yw dioddef llawer, nag ymddial; a bod ar ein colled, yn hytrach nâ chynhennu a chyfreithio. —— 1 Cor. vi. 1, 7. *A feiddliai neb o honoch a chanddo fatter yn erbyn arall, ymgyfreithio o flaen y rhai anghyfiawn, ac. nid o flaen y ſaint? Yr awr hon gan hynny y mae yn hollol ddiffyg yn eich plith, am eich bod yn ymgyfreithio â'i gilydd.*

Pa

Pa ham nad ydych yn hytrach yn dioddef cam? pa ham nad ydych yn hytrach mewn colled?

2. Mi a ddylwn arferyd pob moddjon, a phrofi pob ffordd a fo boſſibl, i ddwyn pob matter i ben, ac unjawni pob camwedd trwy gariad a heddwch. —— Rhuf. xii. 18. *O's yw boſſibl, hyd y mae ynnoch chwi, byddwch heddychlawn â phob dŷn.*

3. Mi a ddylwn rhyddhâu y neb ni allo wneuthur jawn, a gochelyd ymgyfreithio â neb ar achoſion dichwaith; eithr mewn camwedd trwm, a fo'n niweidiol i mi a'm tylwyth, nid yw yn anghyfiawn i geiſio unjondeb dyledus, yn *ddilid*, trwy gyfraith, pan na allwyf ei gael yn un ffordd arall. —— 1 Dim. i. 8. *Nyni a wyddom mai da yw'r gyfraith, o's arfer dŷn hi yn gyfreithlon.*

4. Mi a ddylwn lwyrfaddau i bawb eu holl droſeddau i'm herbyn, pa un a wnelir i mi jawn am danunt, neu beidio; ſef, gweddio ar Dduw droſtunt; ac na bo na gwg na digaſedd gennyf tu ag attunt. —— Marc xi. 25. *Pan ſafoch i weddio, maddeuwch, o's bydd gennych ddim yn erbyn neb: fel y maddeuo eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd i chwithau eich camweddau.*

Cw. Pa gynnifer gwaith y dylech faddau i'r rhai a droſeddant i'ch herbyn?

Att. Cynnifer gwaith bynnag y troſeddont i'm herbyn, y ddylwn ddeiſyf ar Dduw i faddau iddunt; ac na bo i mi chwennych ymddial, nac ewyllyſio'n ddrwg iddunt un amſer. —— Math. xviii. 21, 22. *Yna y daeth Pedr atto ef, ac a ddywedodd, Arglwydd, pa ſawl gwaith y pecha fy mrawd i'm herbyn, ac y maddeuaf iddo? ai hyd ſeithwaith? Yr Jeſu a ddywedodd wrtho, Nid ydwyf yn dywedud wrthyt, Hyd ſeithwaith; ond, Hyd ddengwaith a thrugain ſeithwaith.* Diar. xxiv. 29.

Cw. Pa beth a ddylech yſtyriaid, i'ch gwneuthur yn ewyllyſgar i faddau i'r rhai a bechant i'ch herbyn?

Att. 1. Mi a ddylwn yſtyriaid, fod ſy mhechodau i yn erbyn Duw yn llawer mwy o faintjoli, ac yn amlach o rifedi, nag y ddichon troſeddau neb dynjon fod yn fy erbyn i; megis y mae deng mîl o dalentau yn rhagori ar gan ceiniog. *Math.* xviii. 23—35.

2. Mi a ddylwn yſtyriaid, fod maddau cam a throſedd yn beth doeth a hardd, yngolwg Duw a dynjon. —— Diar.

xix.

xix. 11. *Synwyr dŷn a oeda ei ddigofaint ef: a harddwch yw iddo fyned dros gamwedd.* —— Diar. xiv. 29. *Y diog i ddigofaint ſydd yn llawn o ſynwyr: ond y digllon ei yſbryd a ddyrchafa ynfydrwydd.*

3. Mi a ddylwn yſtyriaid, mor dueddol wyfi i bechu'n erbyn dynjon eraill; ac a ddylwn am hynny fod yn fwy parod i faddau i'r neb a becho yn fy erbyn innau. —— Preg. vii. 21, 22. *Na oſod dy gàlon ar bob gair a ddyweder: rhag it' glywëd dy wâs yn dy felldithio. Canys llawer gwaith hefyd y gwŷr dy gàlon ddarfod i ti dy hun felldithio eraill.*

4. Mi a ddylwn yſtyriaid Dajoni a Thrugaredd Duw, er mwyn Criſt, yn maddau'r pechodau a wneuthum yn ei erbyn ef; fel y byddo yn rhwyddach gennyfi i faddau'r troſeddau a wnelo eraill yn fy erbyn i. —— Col. iii. 13. *Gan gyd-ddwyn â'i gilydd, a maddau i'w gilydd, o's bydd gan neb gweryl yn erbyn neb: megis ag y maddeuodd Criſt i chwi, felly gwnêwch chwithau.* Eph. iv. 32.

5. Mi a ddylwn yſtyriaid, fy mod yn melldithio fy hun, ac megis yn gweddio ar Dduw am Ddamnedigaeth, pan ddywedwyf *Weddi'r Arglwydd*, oni faddeuaf o'm càlon i bawb eu camweddau: canys yr un gyffelyb ag yr wyf yn maddau i eraill, yr wyf yn ceiſio gan Dduw i faddau i mi. —— Math. xviii. 33—35. *Oni ddyleſit tithau drugarhâu wrth dy gydwas, megis y trugarheais innau wrthyt ti? A'i arglwydd a ddigiodd, ac a'i rhoddes ef i'r poenwyr, hyd oni thalai yr hyn oll oedd ddyledus iddo. Ac felly y gwnâ fy Nhâd nefol i chwithau, oni faddeuwch o'ch calonnau bob un i'w frawd eu camweddau.* Ecclus. xxviii. 1, 2. Marc xi. 26. Jago ii. 13.

Cw. Beth a ddylech ddyſgu oddi wrth y cwbl a ddywedaſoch am yr Arch hon; ſef, *Maddau i ni ein dyledjon, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr?*

Att. 1. Mi a ddylwn gydnabod yn athriſt, fy mod yn pechu'n feunyddjol yn erbyn Duw; ac onid ê, ni buaſai'n Harglwydd yn fy nyſgu i weddio beunydd am Faddeuant. —— 1 Joan i. 8. *O's dywedwn nad oes ynnom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirjonedd nid yw ynnom.* Diar. xxviii. 13.

2. Mi a ddylwn ddioſch yn ddifriſol i Dduw, am dreſnu i mi Faddeuant trwy'r Jawn a dalodd Criſt droſoſi; ac onid ê, nid allaſwn fyned yn rhydd oddi wrth fy mhechodau byth.

byth. —— Act. iv. 12. *Nid oes jechydwriaeth yn neb arall: canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi ym mhlith dynjon, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwëdig.* Act. v. 31. xiii. 38, 39. Rhuf. iii. 24. Eph. i. 7. Sal. xlix. 7, 8. 1 Sam. ii. 25.

3. Mi a ddylwn weddio 'n ddyfal am Faddeuant, a phob peth a berthyn iddo; gan fod yn hyderus y gwrendy Duw arnaf, o's ceifiaf yn ôl Gorchymmyn Crift. —— 1 Joan v. 14. *Hyn yw'r hyfder fydd gennym tu ag atto ef; ei fod ef yn ein gwrando ni, o's gofynnwn ddim yn ôl ei ewyllys ef.* Mic. vii. 18, 19.

4. Mi a ddylwn feddu Cariad diffuant i bob dŷn, i faddau iddunt mor rhwydd ag y dymunwyf i gael Maddeuant gan Dduw: canys o's anghydfod fydd rhyngom a'i gilydd, ni wrendy Duw 'n Gweddiau. —— Math. v. 23, 24. *O's dygi dy rôdd i'r allor, ac yno dyfod i'th gôf fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn; gâd yno dy rôdd ger bron yr allor, a dôs ymmaith: yn gyntaf cymmoder di â'th frawd, ac yna tyred, ac offrwm dy rôdd.*

5. Mi a ddylwn weddio am ychwaneg o Ffydd, o's mynnaf fod yn abl i gyflawnu dyledfwyddau celyd; a maddau yn ewyllyfgar i 'r rhai a 'm cyffroant yn fynych. —— Luc xvii. 3—5. — *O's pecha dy frawd yn dy erbyn, cerydda ef; ac o's edifarhâ efe, maddau iddo. Ac o's pecha yn dy erbyn feithwaith yn y dydd, a feithwaith yn y dydd droi attat, gan ddywedud, Y mae yn edifar gennyf; maddau iddo. A'r apoftoljon a ddywedafant wrth yr Arglwydd, Anghwanega ein ffydd ni.*

Cw. Beth yw 'r chweched Arch yng *Ngweddi 'r Arglwydd*?

Att. Nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg.

Cw. Beth yw yftyr yr Arch hon?

Att. Yr ydym yn deifyf ar Dduw, fy'n maddau'n Pechodau, ein cadw rhag fyrthio drachefn i Bechod, trwy nebrhyw Brofedigaethau. *Math.* x. 22.

Cw. Pa ham y 'ch dyfgir i weddio yn erbyn Profedigaeth, yn nefaf at yr Arch am Faddeuant Pechod?

Att. 1.

Att. 1. Am ſod y rhai y maddeuwyd eu pechodau, mewn berygl o ſyrthio i Broſedigaethau eilwaith. —— 1 Cor. x. 12. *Yr hwn ſydd yn tybiaid ei fod yn ſefyll, edryched na ſyrthio.*

2. Am mai y rhai annwylaf gan Dduw, ſy gaſaf gan y diafol; ſef, y rhai a lefant doſtaf am Faddeuant, a flinir fwyaf gan Broſedigaethau Satan, tra fytho yn gadael yr annuwiol yn llonydd, lle mae efe yn teyrnaſu yn ddirwyſtr. —— Luc xi. 21. *Pan fyddo un cryf arfog yn cadw ei neuadd, y mae yr hyn ſydd ganddo mewn heddwch.*

3. Am nad allwn fyth ddiſgwil Maddeuant, lieb wilio yn erbyn Pechod a Phroſedigaethau; ac ni a ddylem wilio yn eu herbyn yn ddieſgeulus, rhag i'n cyflyrau yn ôl llaw fod yn waeth nag o'r blaen. —— Joan v. 14. — *Wele, ti a wnaethwyd yn iach: na phecha mwyach, rhag digwyld i ti beth a fyddo gwaeth.* 2 Pedr ii. 20. Sal. lxxxv. 8. Ezec. xviii. 26.

Cw. Pa ſawl rhan ſydd yn yr Arch hon?

Att. Dwy ran. 1. *Nac arwain ni i brofedigaeth.* 2. *Gwared ni rhag drwg.*

Cw. Beth yw *Profedigaeth?*

Att. Mae Profedigaeth o ddau fath.

1. Y Profedigaethau trwy ba rai y mae Duw yn profi pa beth ſydd ynnom, er ei fod ef yn gwybod ym mlaen llaw. — Sal. xi. 4. — *Y mae ei lygaid ef yn gweled, ei amruntau yn profi meibion dynion.* Jer. xvii. 10.

2. Y Profedigaethau trwy ba rai y mae Satan yn ein têmtio i bechod a dinyſtr. — 1 Pedr v. 8. *Bydd-wch ſobr, gwiliwch: o blegid y mae eich gwrthwynebwr diafol, megis llew rhuadwy, yn rhodio oddi amgylch, gan geiſio y neb a allo ei lyngcu.*

Cw. Pa ffordd y mae Duw yn profi ei Bobl?

Att. 1. Y mae Duw yn profi ei Bobl weithjau, trwy draflod a chyſtudd. Felly y cyſtuddiodd Duw bobl *Iſrael* lawer gwaith, *i wybod yr hyn oedd yn eu calon, a gadwent hwy orchymmynnion Duw, ai na'i cadwent.* Deut. viii. 2.

2. Y mae Duw yn profi ei Bobl weithjau, trwy roddi allwyddiant mawr a thrugareddau hynod idduut. Felly y rhoddodd Duw drugareddau lawer, ac y *glawiodd manna o'r nefoedd*, i brofi pobl *Iſrael* yn yr anialwch. *Exſod.* xvi. 4.

3. Y mae Duw yn profi ei Bobl weithjau, trwy oddef e gwrthwynebwyr i'w blino hwy yn y byd. Felly y gadawödd Duw i'r cenhedloedd aros yng ngwlâd *Canaan*, i brofi pob *Iſräel*. Barn. ii. 21, 22. iii. 1, 4.

4. Mae Duw yn profi ei Bobl weithjau, trwy oddef i ga athrawön neu brophwydi cyfeiliornus gyfodi yn eu plith.—Deut. xiii. 3. *Na wrando ar eirjau'r prophwyd hwnnw neu ar y breuddwydydd breuddwyd hwnnw; canys yr A glwydd eich Duw ſydd yn eich profi chwi.* —— 1 Cor. x 19. *Rhaid yw bod hereſiau yn eich myſg; fel y byddo rhai cymmeradwy yn eglur yn eich plith chwi.*

5. Y mae Duw yn profi ei Bobl weithjau, trwy attal od wrthunt ei Gymmorth ar ryw brydjau. Felly y profodd Du *Hezeciah*: pan ddaeth *cenhadau tywyſogjon Babilon, y rh a anfonwyd atto ef, i ymofyn am y rhyfeddod a wnaeth yn y wlâd, Duw a'i gadawödd ef, i'w brofi ef, i wybod cwbl ag oedd yn ei gàlon ef.* 2 Cron. xxxii. 31.

6. Mae Duw yn profi ei Bobl weithjau, trwy oſod arnu ryw waith neu ddyledſwydd anhawdd ei gyflawnu. Felly profodd Duw *Abraham*, trwy orchymmyn iddo offrymu ei unig fâb *Iſaac*. Gen. xxii. 1, 2.

7. Mae Duw yn profi ei Bobl weithjau, trwy erledigaeth yn achos Crefydd; i weled pa un a barhâant yn ffyddlon. Dad. ii. 10. *Nac ofna ddim o'r pethau yr ydwyt i'w dio ef. Wele, y cythraul a fwrw rai o honoch chwi i garch fel y'ch profer; a chwi a gewch gyſtudd ddeng niwrn Bydd ffyddlon hyd angau, ac mi a roddaf i ti goron y byw* 1 Pedr iv. 12. Luc viii. 13.

Cw. Pa ffordd y mae'r diafol yn temtio dynjon i bech a dinyſtr?

Att. 1. Mae'r diafol yn temtio i bechod, trwy annog chymmell dynjon oddi mewn i ryw bechodau neu gily Felly yr annogodd efe *Dafydd* i riſo'r bobl; ac y ddygo farn drom arno ef a hwyntau: Ac felly y goſododd y dia yng nghàlon *Judas* i fradychu Criſt. 1 *Cron.* xxi. 1. *J* xiii. 2.

2. Mae'r diafol yn temtio dynjon i bechod, trwy meluſchwantau cnawdol eu hunain.—— Jago i. 14, 15. *y temtir pob un, pan y tynner ef, ac y llithier, gan chwant ei hun. Yna chwant, wedi ymddwyn, a eſgor*

bech

bechod: pechod hefyd, pan orphenner, a eſgor ar farwölaeth. Rhuf. vii. 23. Gal. v. 17.

3. Mae'r diafol yn temtio dynjon i bechod, trwy hudoljaeth drachwantus y byd. Felly y ceiſiodd Satan i demtio Criſt. —— Math. iv. 8, 9. — Efe *a ddangoſodd iddo holl deyrnaſoedd y byd, a'u gogoniant; ac a ddywedodd wrtho, Hyn oll a roddaf i ti, o's ſyrthi i lawr a'm haddoli i.* 1 Dim. vi. 10. 2 Dim. iv. 10.

4. Mae'r diafol yn temtio dynjon i bechod, trwy ſyrthni a diofalwch dynjon yn eu gwaith a'u galwäd: canys ſegurdra dynjon yw cyflëuſdra'r diafol. Pan oedd *Dafydd* yn codi brydnhawn oddi ar ei wely, ac yn rhodio ar nen y tŷ, y temtiodd y diafol ef i odineb a mwrdd-dra. 2 *Sam.* xi.

5. Mae'r diafol yn temtio i bechod, trwy gyfeillgarwch llygredig, a chymdeithas annuwjol dynjon eraill. Felly yr hudwyd *Jehoſaphat* gan *Ahab* i ryfel, yn wrthwyneb i Ewyllys Duw. A thrwy fyned yn anyſtyriol i gymdeithas yr annuwjoljon, y temtiwyd *Pedr* i wadu Criſt. A *Joſeph*, ym myſg yr *Aiphtjaid*, a ddyſgodd dyngu, *Myn einioes Pharao.* 2 Cron. xviii. 3. xix. 2. Math. xxvi. 69—72. Gen. xlii. 15, 16.

6. Mae'r diafol yn temtio dynjon i bechod, trwy ei ddichelljon yn llyfelu profedigaethau cyfattebol i bob graddau, a ſwyddau, a galwëdigaethau, ac i bob cyflyrau, a thymherau, a digwyddiadau a berthyn i bob dŷn. — 2 Cor. ii. 11. — *Nid ydym heb wybod ei ddichelljon ef.*

7. Mae'r diafol yn temtio dynjon i bechod, trwy'r awdurdod a'r llywodraeth ſy gantho dros annuwjoljon y byd hwn, i'w cynhyrfu i'r drygau a fynno. —— Eph. ii. 2. Canys, *tywyſog llywodraeth yr awyr*, yw'r ysbryd drwg, *ag ſy'n gweithio ym mhlant anufudd-dod.* —— Eph. vi. 12. *Nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywyſogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydollywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefoljon leoedd.*

Cw. Pa ham y mae Duw yn arwain, neu'n goddef i brofedigaethau eich temtio?

Att. 1. Er bod Duw yn goddef i brofedigaethau brofi ei Bobl, nid yw efe yn temtio neb i bechu. —— Jago i. 13. *Na ddyweded neb pan demtier ef, Gan Dduw y'm temtir:*

canys Duw ni's gellir ei demtio â drygau, ac nid yw ẽfe yn temtio neb. Sal. v. 4.

2. Mae Duw yn goddef i'w Bobl gael eu blino â phrofedigaethau, i weithio ammynedd ynddunt, er cyffur iddunt yn ôl hynny.—— Jago i. 2, 3. *Cyfrifwch yn bob llawenydd fy mrodyr, pan fyrthioch mewn amryw brofedigaethau: gan wybod fod profiad eich ffydd chwi yn gweithredu ammynedd.*

3. Mae Duw yn goddef i'w Bobl gael eu blino â phrofedigaethau, i'w cadw yn oftyngedig; ac nad ymfalchionn dan fwynhâad yr Uchelfreintjau y fo Duw yn rhoi iddunt —— 2 Cor. xii. 7. *Fel na'm tradyrchafer gan odidowgrwydd y dadguddiedigaethau, rhoddwyd i mi fwmbwl yn y cnawd cennad ſatan, i'm cernodio, fel na'm tradyrchefid.*

4. Mae Duw yn goddef i'w Bobl gael eu blino â phrofedigaethau, i'w puro oddi wrth bechod, a'u perffeithio mewn Sancteiddrwydd. —— Job xxiii. 10. — *Wedi iddo fy mhrofi myfi a ddeuaf allan fel aur.* Sal. lxvi. 10. Zech. xiii. 9.

5. Mae Duw yn goddef i'w Bobl gael eu blino â phrofedigaethau, fel yr ymddangofo nerth grymmus Grâs Duw yn eu nerthu hwy i orchfygu profedigaethau. —— 2 Cor. xii. 9. —*Digon i ti fy ngrâs i; canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid.*

6. Mae Duw yn goddef i'w Bobl gael eu blino â phrofedigaethau, fel y byddo profiad eu graſau er gorfoledd iddunt ac er Gogoniant i Dduw, yn Nydd y Farn. —— 1 Pedr i. 6, 7. *Yr ydych yn mawrlawenhau, er eich bod ychydig yr awr hon (o's rhaid yw) mewn triſtwch, trwy amryw brofedigaethau: fel y caffer profiad eich ffydd chwi, yr hwn ſydd werthfawrufach nâ'r aur colladwy, cyd brofer ef trwy dân, er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant, yn ymddangoſiad Jeſu Griſt.*

7. Mae Duw yn goddef i brofedigaethau orchfygu rhai annuwiol, mewn ffordd o gôsb a barn, am wrthod Addyſg ei Air ef. —— 2 Theſſ. ii. 10, 11.—*Am na dderbynieſant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwëdig. Ac am hynny y denfyn Duw iddunt hwy amryfuſedd cadarn, fel y credont gelwydd.*

Cw. Am ba beth yr ydych yn gweddio yn y rhan gyntaf o'r Arch hon; ſef, *Nac arwain ni i brofedigaeth?*

At

Att. Yr ydwyf yn gweddio, na oddefo Duw i mi, nac eraill, fyned i nebrhyw 'ſtâd na chyflwr, nac i nebrhyw le, neu gymdeithas, neu waith, neu alwäd, ag y ſo yn brofedigaeth i bechod; ac iddo ein cadw rhag ein gorchfygu gan demtaſiynau Satan: canys ſe all Duw ein cadw. —— 2 Pedr ii. 9. *Yr Arglwydd a ſedr wared y rhai duwjol rhag profedigaeth.* 1 Cor. x. 13.

Cw. Rhag pa ddrygau y dylech weddio am waredigaeth, yn yr âil ran o'r Arch hon; ſef, *Gwared ni rhag drwg?*

Att. 1. Mi a ddylwn weddio am gael fy ngwaredu, o'ſ gwêl Duw fod yn dda, rhag peryglon a digwyddiadau drwg, ag y fytho yn ofidus i mi. —— 1 Cron. iv. 10. *A Jabes a alwödd ar Dduw Iſräel, gan ddywedud, O na lwyrfendithit ſi, — a'm cadw oddi wrth ddrwg, fel na'm gofidier: a pharodd Duw ddyfod iddo yr hyn a ofynnaſai.* Sal. lvii. 1. cxxv. 3. Jonah iii. 10. Jer. xviii. 8.

2. Mi a ddylwn weddio, am gael fy ngwaredu oddi wrth dueddrwydd fy nàtur yn ôl trachwantau 'r byd pechadurus hwn. —— 1 Joan ii. 16. *Pob peth a'r ſydd yn y byd, megis chwant y cnawd, chwant y llygaid, a balchder y bywyd; nid yw o'r Tâd, eithr o'r byd y mae.*

3. Mi a ddylwn weddio, yn bennaf, am gael fy ngwaredu rhag y drwg o Bechod, a 'r awdwr o hono; ſef, yr ysbryd drwg. *Math.* xiii. 19. 1 *Joan* ii. 13, 14. v. 18.

Cw. Pa ham y dylech weddio 'n bennaf yn erbyn y drwg o Bechod?

Att. Am mai 'r gwaethaf o bob drygau yw. O blegid,

1. Mae Pechod yn wrthwyneb i 'r Dajoni pennaf; ſef, Duw ei hun.

2. Mae Pechod yn ein 'sbeilio o bob Dajoni, ac yn dwyn arnom bob trueni.

3. Mae Pechod yn drygu holl greadurjaid y byd; o blegid iddo dynnu Melldith Dduw ar yr holl ddaear.

4. Mae Pechod yn waeth nâ holl ddrygau a chosbedigaethau 'r byd. Mae yntho fwy o fai nag all yr holl fyd wneuthur o jawn; a mwy o affendid nag all yr holl fyd lanhâu: ac ni buaſai byth rhyddhâad oddi wrtho, oni buaſai i Grift dywallt ei Waed drofom.

5. Mae Pechod yn waeth nag Angau, ac nâ holl boenau Uffern; canys Pechod yw 'r achos o honunt. Holl ddrwg y

diafol ydyw; canys Pechod a drôdd y cythreuljaid yn ysbryd-jon drwg, ag oeddynt o'r blaen yn Angyljon gogoneddus.

Cw. Beth a ddylech ddyſgu oddi wrth gyffyllidiad y ddwy ran yn yr Arch hon; ſef, *Nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg?*

Att. Mi a ddylwn yſtyriaid, na's gallaf ddiangc rhag drwg Pechod, heb ochelyd Profedigaethau, a chilio oddi wrthunt. —— Ecclus. xxi. 2. *Ffô oddi wrth bechod megis rhag wyneb ſarph: o blegid o's deui di yn agos atto, efe a'th frâth di. Danneddllew yw ei ddanneda ef, yn lladd eneidjau dynjon.* Sal. xxxiv. 14.

Cw. Beth a ddylech ddyſgu oddi wrth fod Criſt yn gorchymmyn i weddio yn erbyn Profedigaeth a Phechod?

Att. 1. Mi a ddylwn yſtyriaid, fod anſawdd ein natur lygredig ni, fyth oddi ar ein Cwymp yn *Adda*, yn dueddol i'r Drwg, ac yn chwannog i ymollwng gyd â Phrofedigaethau, oni cheidw Duw ni. *Rhuf.* vii. 21, 24.

2. Mi a ddylwn edrych, na bo i mi ymddiried yn fy nerth fy hun; eithr credu yn Nuw, a gweddio am Gymmorth yn eu herbyn; rhag i ni ſyrthio yn ôl eſampl dynjon anghrediniol. —— Rhuf. xi. 20. *Trwy anghrediniaeth y torrwyd hwynt ymmaith, a thithau ſydd yn ſefyll trwy ffydd. Na fydd uchelfryd, eithr ofna.* 1 Cor. x. 12.

3. Mi a ddylwn obeithio'n hyderus am Gymmorth yn eu herbyn, o's gweddiaf am dano; gan fod Criſt yn gorchymmyn i mi ei geiſio. —— 1 Cor. x. 13. — *Ffyddlon yw Duw, yr hwn ni âd eich temtio uwch law yr hyn a alloch; eithr â wnâ ynghŷd â'r temtaſiwn ddiangfa, fel y galloch ei ddwyn.* 2 Pedr ii. 9.

4. Mi a ddylwn fod yn ddiolchgar, na's dichon y diafol, er maint ei gryfdwr, fy rhuthro i Brofedigaeth, heb i Dduw genhadu: canys y mae Duw yn cae o amgylch ei Bobl; fel y dywedodd Satan am *Job.* —— Job i. 10. *Oni chaeaiſt o'i amgylch ef, ac o amgylch ei dŷ, ac ynghylch yr hyn oll ſydd eiddo oddi amgylch?*

5. Mi a ddylwn edrych am ran yng Nghriſt trwy Ffydd: canys y mae efe yn eirjol dros ei Bobl, fel na orchfyger hwynt gan Brofedigaethau Satan. —— Luc xxii. 31, 32. *A'r Arglwydd a ddywedodd, Simon, Simon, wele, ſatan a'ch ceiſiodd chwi, i'ch nithio fel gwenith: eithr mi a weddiais droſot, na ddiffygiai dy ffydd di.* Joan xvii. 15.

6. Mi

6. Mi a ddylwn ddyfalymgadw yn ôl Gair Duw: canys y nae Duw yn cadw'r cyfryw yn amſer Profedigaeth. —— Dad. iii. 10. *O achos cadw o honot air fy ammynedd i, minnau a'th gadwäf di oddi wrth awr y brofedigaeth.*

7. Mi a ddylwn weled mor ddymunol yw bod gyd â Chriſt yn y Nefoedd, yn gwbl rydd oddi wrth fy holl lygredd, ac allan o gyrraedd yr holl Brofedigaethau ag ſydd yn achos o gymmaint gofid a pherygl i mi ar y ddaear. *Dad.* vii. 17. xxi. 4.

8. Mi a ddylwn ddyfalweddio yn erbyn Profedigaethau, yn ôl Gorchymmyn Criſt. —— Math. xxvi. 41. *Gwiliwch a gweddiwch, fel nad eloch i brofedigaeth.*

9. Mi a ddylwn yſtyriaid yn dda, mai fel yw fy Ngweddi, y dylai ſod fy ngweithred hefyd; ac am hynny, na 's dylwn redeg i Brofedigaethau o'm meddwl fy hun, a mi yn gweddio nad arweiner fi iddunt; rhag i mi demtio Duw i'm gadel i ſyrthio. —— *Efa* a edrychodd ar ffrwyth y pren, ac a ddechreuodd ymddiddan â'r temtiwr; a hi a ſyrthiodd yn fuan i bechod. —— *Dinah a aeth allan i weled merched y wlâd*; a hi a dreiſiwyd cyn dychwelyd. —— *Pedr* a aeth i mewn i lŷs yr Archoffeiriad; ac efe a wadodd Criſt cyn dyfod allan. *Gen.* iii. 1—6. xxxiv. 1, 2. *Math.* xxvi. 69—74.

10. Mi a ddylwn weddio, am ſod i eraill hefyd gael eu cadw rhag Profedigaeth a Drygau. —— 2 Cor. xiii. 7. *Yr wyf yn gweddio ar Dduw, na wneloch chwi ddim drwg.*

Cw. Beth yw'r drydedd Ran o *Weddi'r Arglwydd*?

Att. Y drydedd Ran o *Weddi'r Arglwydd*, yw'r Diweddglo, yn y geirjau hyn:

Canys eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r Gallu, a'r Gogoniant, yn oes oeſoedd. Amen.

Cw. Pa ſawl peth a ddylech ddal ſulw arnunt yn y Diweddglo?

Att. Chwech peth.

1. Mai eiddo Duw yw'r *Deyrnas*; ſef, mai Duw yw'r Brenin Mawr Goruchaf, ſy'n teyrnaſu dros y nefoedd a'r ddaear, ac yn llywodraethu pob peth. *Dan.* iv. 34, 35.

2. Mai eiddo Duw yw'r *Nerth*; ſef, bod Duw yn Hollalluog, neu'n Anfeidrol o Nerth a Gallu, i gyflawnu ei holl Ewyllys; ac nad oes nerth na gallu, onid a ddêl oddi wrtho ef.

3. Mai eiddo Duw yw'r *Gogoniant*; ſef, iddo ef y perthyn drefnu pob peth i'w Ogoniant ei hun; ac iddo ef y mae pob Clôd a Gogoniant yn ddyledus.

4. Mai eiddo Duw yw'r Deyrnas, a'r Nerth, a'r Gogoniant, *yn oes oeſoedd*; ſef, bod Mawredd gogoneddus Duw yn dragywyddol, ac erioed hyd byth yr un, heb ddechreuad, na chyfnewidiad, na diwedd.

5. Y cyffylldiad cyflëus ſy rhwng y Diweddglo a'r Deiſyfiadau o'r blaen, yn y gair hwn; *Canys:* o herwydd y dylai'r yſtyriaeth o hono ein cyffrôi i weddio yn egniol ar Dduw, ac i ddiolch iddo; megis pe dywedem, Yr ydym, O Arglwydd! yn goſod ein Deiſyfiadau attat yn hyderus, ac yn dy glodfori di, o blegid mai *eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r Gallu, a'r Gogoniant, yn oes oeſoedd.*

6. Sêl y *Weddi*; ſef, y gair *Amen*; megis tyſtiolaeth o'n Cydſynniad â phob Rhan o'r *Weddi*, ac o'n Dymuniad i gael ein gwrando gan Dduw ym mhob un o'r Deiſyfiadau a gynhwyſir ynthi; megis pe dywedem, *Poed felly y bo.*

Cw. Pa ham y chwanegir y Diweddglo hyn at *Weddi'r Arglwydd*?

Att. 1. O blegid ſod ſynnio'n yſtyriol ac yn barchus am Uchelfreintjau gogoneddus ac Ardderchowgrwydd Mawredd Duw, megis y ſonier ymma am danunt, yn ſuddjol i adfywio a chymmorth ein Ffydd, i ymbil yn hyderus ar Dduw mewn Gweddi.

2. O blegid y dylem ſod yn ddiolchgar i Dduw, a ſoliannu yn ein Gweddiau; trwy ſynniaid yn barchus am e Uchelfreintjau gogoneddus, ac Ardderchowgrwydd ei Fawredd, i'n deffrôi i ſod yn ddiolchgar iddo.

3. O blegid y Gwerſau da a ddylem ni ddyſgu oddi wrth yr hyn a ſonier ymma am Uchelfreintjau gogoneddus ac Ardderchowgrwydd Duw.

Cw. A ydyw'n ſuddjol i chwi arferu Yſtyriaethau, i'ch deffrôi i ymbil yn hyderus ar Dduw mewn Gweddi?

Att. Y mae Yſtyriaethau cymmwys yn ſuddjol i adfywio ſy Zêl, i ddeffrôi ſy Ysbryd, i wreſogi ſy Serch, ac i nerthu ſy Ffydd mewn Gweddi, i gymmeryd gafael yn Nuw, ſe

na ollyngwyf ef nes cael fy mendithio ganddo. *Jacob* a ddywedodd wrth yr Arglwydd, *Ni'th ollyngaf, oni'm bendithi.* Gen. xxxii. 26. —— A *Job* a *dreſnai ei fatter ger bron Duw, ac a lanwai ei enau â rheſymmau.* Job xxiii. 4. Eſay lxiv. 7. Sal. lv. 17. Jago v. 16.

Cw. Pa Yſtyriaethau ſydd yn y Diweddglo hwn, a ddylai'ch hannog i ymbil yn hyderus â Duw mewn Gweddi?

Att. 1. Mi a ddylwn ymbil yn hyderus ar Dduw mewn Gweddi; canys, *eiddo ef yw'r Deyrnas:* ſef, am fod Duw yn Frenin y brenhinoedd, a Phenllywiawdwr yr holl fyd, yn llywodraethu dros holl genhedlaethau 'r ddaear, a chanddo Awdurdod i wneuthur fel y gwelo fod yn dda. Felly y gweddiodd *Jehoſaphat* ar Dduw yn ei gyfyngder, ac a lwyddodd. 2 *Cron.* xx. 5, 6.

2. Mi a ddylwn ymbil yn hyderus ar Dduw; canys eiddo ef yw 'r *Nerth:* ſef, am fod Duw yn Hollalluog, yn gwbl abl i roi, ac i wneuthur y peth a geiſio ei Bobl gantho; ac nad oes dim yn ammhoſſibl iddo. —— Sal. lxxix. 11. — *Yn ôl mawredd dy nerth, cadw blant marwölaeth.* Eph. iii. 20. 2 Cron. xiv. 11. Job xlii. 1, 2. Gen. xviii. 14. Math. xix. 26.

3. Mi a ddylwn ymbil yn hyderus mewn Gweddi; canys eiddo Duw yw 'r *Gogoniant:* ſef, am mai i Dduw y bydd holl Glôd y pethau da a wnelo efe droſom, aç o'r holl Fendithion a roddo efe i ni; am hynny y dylem daerddeiſyf i gael ein gwrando gan Dduw, er ei ſwyn ei hun, ac er mwyn Gogoniant ei Enw. —— Sal. lxxix. 9. *Cynhorthwya ni, O Dduw ein jechydwriaeth! er mwyn gogoniant dy Enw: gwared ni hefyd, a thrugarhâ wrth ein pechodau, er mwyn dy Enw.* Jer. xiv. 7. Dan. ix. 19.

4. Mi a ddylwn ymbil yn hyderus mewn Gweddi; canys eiddo Duw yw 'r Deyrnas, a 'r Gallu, a 'r Gogoniant, *yn oes oeſoedd:* ſef, am fod Duw bob amſer yr un hyd byth, nad yw ef yn cyfnewid fel dynjon; am hynny y gallwn ymbil arno 'n hyderus, i wneuthur â ni megis y gwnaeth ef ag eraill gynt. —— Sal. xxii. 4, 5. *Ein tadau a obeithiaſant ynnot; — a gwaredaiſt hwynt. Arnat ti y lleſaſant; ac achubwyd hwynt.* Sal. cii. 25—27. Hebr. i. 12. Mal. iii. 6. Jago i. 17.

Cw. A ddylech chwi roddi Diolch i Dduw, a'i foliannu, pan fyddoch yn gweddio?

Att.

Att. 1. Mae'n ddiammau 'n ddyledus i gofio'n ddiolchgar am Drugareddau Duw i ni ac eraill, pan fom yn gweddio arno. —— Eſay lxiii. 7. *Coſiaf drugareddau'r Arglwydd, a moliant Duw, yn ôl yr hyn oll a roddodd Duw i ni, ac amlder ei ddaioni i dŷ Iſräel, yr hyn a roddodd efe iddunt, yn ôl ei doſturiaethau, ac yn ôl amlder ei drugareddau.* Sal. cvii. 21, 22. cxlv. 2. cxlvii. 1.

2. Fe ddylai Gweddi a Thâl-diolch gydgerdded yn waſtad: canys felly y mae Duw yn gorchymmyn. —— Phil. iv. 6. — *Ym mhob peth, mewn gweddi, ac ymbil gyd â diolchgarwch, gwneler eich deiſyfiadau chwi yn hyſbys ger bron Duw.* — Col. iv. 2. *Parhêwch mewn gweddi, gan wilied ynddi gyd â diolchgarwch.* 1 Theſſ. v. 17, 18. Sal. cxvi. 17.

3. Ni a ddylem ddiolch i Dduw a'i foli wrth Weddio, er Gogoniant iddo. — Sal. l. 23. *Yr hwn a abertho foliant, a'm gogonedda i.* Sal. lxix. 30, 31. Hebr. xiii. 15.

Cw. Pa beth a ſonier am Fawredd ac Ardderchowgrwydd gogoneddus Duw yn y Diweddglo hwn, ag a ddylai'n cymmell i foli Duw, a diolch iddo?

Att. 1. Ni a ddylem foliannu ei Deyrnaſiad ef. Pan ddywettom, *Eiddot ti yw'r Deyrnas*; pa beth yw, ond megis pe dywedem, Yr ydym, O Arglwydd! yn dymuno clodfori Ardderchowgrwydd a Mawredd dy Awdurdod oruchel penaiglwyddiaethol di: canys tydi yw'r Brenin Mawr ſy 'n teyrnaſu dros bob peth, ac yn llywodraethu droſom ni oll, er dajoni a diogelwch i ni? 1 *Cron.* xxix. 11. *Dad.* xix. 6, 7. *Sal.* xxii. 26, 28. xlvii. 1, 2, 8.

2. Ni a ddylem foliannu Duw, o blegid ei Allu. Pan ddywettom, *Eiddot ti yw'r Nerth*, neu 'r *Gallu*; pa beth yw, ond megis pe dywedem, Yr ydym, O Arglwydd! yn dymuno clodfori Ardderchowgrwydd a Mawredd Hollalluogrwydd dy Gadernid: canys Gallu anfeidrol ſy gennyt i gyflawnu dy holl Ewyllys, ac i wneuthur yr hyn oll a fynnech ar ran dy Bobl? *Dan.* ii. 20, 21. *Sal.* lxii. 11. lxvi. 1, 3, 7, 8. cxxxv. 1, 5, 6. *Diar.* viii. 15, 16.

3. Ni a ddylem foliannu Duw, o blegid ei Ogoniant. Pan ddywettom, *Eiddot ti yw'r Gogoniant*; pa beth yw, ond megis pe dywedem, Yr ydym, O Arglwydd! yn dymuno clodfori Ardderchowgrwydd a Mawredd dy Ogoniant anfeidrol di: canys i ti y mae pob Clôd a Mawl yn ddyledus, o herwydd dy holl Weithredoedd gogoneddus a'th Drugareddau aneiriſ i ni ac eraill? 1 *Cron.* xxix. 10, 11.

4. Ni

4. Ni a ddylem foliannu Duw, o blegid fod y Breintiau goruchel hyn yn eiddo Duw hyd byth, heb ddechrau, na diwedd, na chyfnewidiad. Canys pan ddywettom, *Eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r Gallu, a'r Gogoniant, yn oes oesoedd*; pa beth yw, ond megis pe dywedem, Yr ydym, O Arglwydd! yn dymuno dy glodfori, o herwydd fod Ardderchowgrwydd a Mawredd gogoneddus dy Deyrnas, a'th Allu, a'th Ogoniant di, yn dragywyddol, yn anfeidrol, ac yn anghyfnewidiol: Clôd tragywyddol fy ddyledus i ti? *Dan.* iv. 34. *Neh.* ix. 5. 1 *Cron.* xxix. 10. 1 *Dim.* i. 17. *Sal.* xciii. 1, 2.

Cw. Pa Wersau da a ddylech ddysgu oddi wrth y Diweddglo hwn?

Att. 1. Gan mai eiddo Duw yw'r *Deyrnas*; sef, mai efe yw'r Brenin penarglwyddiaethol sydd yn teyrnasu ar yr holl fyd, ac yn llywodraethu pob peth yn ôl Cyngor ei Ewyllys ei hun; mi ddylwn fodloni i bob cyflwr a drefno Duw i mi, gan ymostwng i'w Ewyllys ef, ac edrych er i mi ofni Duw uwch law pob peth. —— Luc xii. 4, 5. — *Nac ofnwch y rhai sy yn lladd y corph, ac wedi hynny heb ganddunt ddim mwy i'w wneuthur. Ond rhagddangosaf i chwi pwy a ofnwch: Ofnwch yr hwn wedi y darffo iddo ladd, sydd ag awdurdod ganddo i fwrw i uffern; ie meddaf i chwi, Hwnnw a ofnwch.* Sal. xcvii. 1, 2. xcix. 1. cxlix. 2.

2. Gan mai eiddo Duw yw'r *Nerth*; sef, Gallu anfeidrol i wneuthur a fynno; mi ddylwn geisio ei Gymmorth ef ar bob achos; a phan fyddwyf yn egwan, nid oes i mi wanffyddio: canys, *nid yw ddim iddo ef i gynhorthwyo, pa un bynnag ai gyd â llawer, ai gyd â'r rhai nid oes ganddunt grysdwr.* 2 Cron. xiv. 11.

3. Gan mai eiddo Duw yw'r *Gogoniant*; i'r hwn y mae pob Clôd a Gogoniant yn ddyledus; mi ddylwn ymwrthod â'm clôd pechadurus fy hun, a bwriadu Gogoniant Duw yn y cwbl a wnelwyf, ac yn y cwbl a geisiwyf gan Dduw yn fy Ngweddiau: canys hyn yn bennaf, yn gyntaf, ac yn ddiweddaf, a ddysgir i mi yn y *Weddi hon.* 1 Cor. x. 31. 1 Pedr iv. 11. Sal. xcvi. 7, 8. Joan xv. 8.

4. Gan fod y Deyrnas, a'r Nerth, a'r Gogoniant, yn eiddo Duw *yn oes oesoedd*; sef, ei fod efe byth ac yn dragywydd yr un yn ei Berffeithrwydd gogoneddus; ni ddylem roi ein holl serch ar Dduw, a glynu wrtho trwy lwyr fryd calon:

canys

canys ni bydd ei Bobl ef byth yn ddigymmorth, na 'i Blant ef byth yn amddifaid. *Duw cadarn, Tâd tragywyddoldeb y gelwir ei Enw ef.* Eſay ix. 6. Sal. cii. 25—27. lxxiii. 25, 26.

Cw. Beth yw yſtyr *Sêl* y *Weddi hon*; ſef, *Amen*?

Att. Mae *Amen*, yn niwedd Gweddi, fel *Sêl*, yn arwyddocâad neu dyſtiolaeth o dri pheth.

1. O Ddymuniad gwirioneddus ein calonnau, am gael gan Dduw y pethau ag ŷm yn ddeiſyfu.

2. O'n Ffydd, y bydd i Dduw, trwy Griſt, ac er Gogoniant ei Enw, eu caniattâu i ni.

3. O'n Hufudd-dod i Griſt: canys efe a orchymmynnodd i ni ddywedud, *Amen*, ar ddiwedd ein Gweddi. O's o ddiffafrwydd a diyſtyrwch yr eſgeuluſwn, neu wneuthur felly yn rhagrithiol, nid ŷm yn Ddiſgyblion cywir iddo, nac yn ewllyſio'n gywir i gael rhan o'r Bendithion y mae Duw yn addaw, ac a geiſier gantho yn y *Weddi hon*. 2 Cor. i. 20.

Cw. Beth ſydd i'w gaſglu oddi wrth fod Criſt yn eich dyſgu i ddywedud, *Amen*, ar ddiwedd Gweddi?

Att. 1. Mae'n eglur, y dylai'n Gweddiau ac Addoliad Duw fod yn y jaith gyffredin, ac mewn geirjau rhwydd i bawb i'w dyall; onid ê, *pa wedd y dywed yr hwn ſydd yn cyflawnu lle yr anghyfarwydd, Amen, ar dy ddodiad diolch, gan na's gŵyr beth yr wyt yn ei ddywedud*?

2. Mae'n eglur, y dylai holl feddylfryd a dymuniad ein calonnau fyned i ſynu gyd â'n Gweddiau at Dduw; onid ê, rhagrith afleſiol ſydd dywedud, *Amen*. Math. xv. 8, 9.

3. Mae'n eglur, y dylai'r pethau a ofynnom gan Dduw mewn Gweddi, fod yn gyttun ag Addewïdjon Duw yn ei Air; onid ê, pa fodd y dywedwn, *Amen*, trwy Ffydd? 1 *Joan* v. 14. *Math.* xxi. 22.

Cw. Pa beth yr ydych yn erchi ar Dduw yn y Weddi hon? neu, Beth yw Swm y pethau yr ydych yn geiſio yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. 1. Yr ydwyf yn deiſyf ar fy Arglwydd Dduw ein Tâd nefol, yr hwn yw Rhoddwr pob dajoni, ddanfon ei Râs i mi, ac i'r holl bobl, fel y gallom ei anrhydeddu ef.

2. Am Râs, i'w waſanaethu ef.

3. Am

3. Am Râs Duw, i ufuddhâu iddo megis y dylem.

4. Yr wyf yn gweddio ar Dduw, i ddanfon i ni bob peth angenrheidjol, yn gyſtal i'n heneidjau, ac i'n cyrph.

5. Am i Dduw fod yn drugarog wrthym, a maddau i ni ein pechodau.

6. Am ryngu bodd iddo ein cadw a'n hamddiffyn, ym mhob perygl ysbrydol a chorphorol; a chadw o hono nyni rhag pob pechod ac anwiredd, a rhag ein gelyn ysbrydol, a rhag angau tragywyddol.

7. Yr wyf yn gobeithio y gwnâ Duw hyn o'i drugaredd a'i ddajoni, trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt: Ac am hynny yr ydwyf yn dywedud, Amen. Poed felly y bo.

Cw. Pa beth, yn olaf, a ddylech ddal ſulw arno ynghylch *Gweddi'r Arglwydd?*

Att. Dau beth.

1. Na ddichon neb weddio'r *Weddi hon* yn wîr yſtyriol, heb ymroddi i fyw yn dduwjol.

2. Bod gweddio'r *Weddi hon* yn wîr yſtyriol, yn ſuddjol, trwy Fendith Dduw, i gynhyddu Duwjoldeb ynnom.

Cw. Pa ſodd na ddichon neb weddio'r *Weddi hon* yn yſtyriol, heb ymroddi i fyw yn dduwjol?

Att. Am fod yn ammhoſſibl i ddynjon annuwjol a drygionus alw yn yſtyriol ar Dduw mewn Gweddi, tra font yn ymwrthod ag ef mewn gweithred; nac i fod yn wirioneddus, gyd â theimlad calon, yn un Rhan o'r *Weddi hon.*

Cw. Pa lun y gellwch eglurhâu hyn yn ſwy neillduol?

Att. 1. Pa ſodd y dichon neb yn yſtyriol ac yn barchus alw Duw yn *Dâd* iddunt, tra fyddont o'u gwirfodd yn blant ac yn weiſion i'r diafol, ac yn ufudd i'r drygau a fynno efe?

2. Pa ſodd y dichon neb weddio ar Dduw yn yſtyriol, wrth ddywedud, *Sancteiddier dy Enw*, a hwyntau yn halogi Enw Duw beunydd, trwy lwon erchyll a rhegau, ac yn ei gymmeryd yn ofer lawer gwaith yn y dydd?

3. Pa ſodd y dichon neb weddio ar Dduw yn yſtyriol, wrth ddywedud, *Deued dy Deyrnas*; tra fyddont yn gwrthod Gras Duw i deyrnaſu droſtunt, ac na fynnant ufuddhâu

i Gyf-

i Gyfreithiau Duw; eithr yn dewis byw dan lywodraeth eu nwydau melldigedig a'u chwantau pechadurus eu hunain?

4. Pa fodd y dichon neb weddio ar Dduw yn yſtyriol, wrth ddywedud, *Gwneler dy Ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd*; tra fyddont yn ymddigio eiſiau cael eu hewyllyſiau drygionus eu hunain, yn anfodlon i'w cyflyrau, ac anufudd i bob peth y mae Duw yn ewyllyſio?

5. Pa fodd y dichon neb weddio ar Dduw yn yſtyriol, wrth ddywedud, *Dyro i ni heddyw ein bara beunyddjol*; tra na fyddont yn hyderu ar Ragluniaeth Dduw am eu cynhaliaeth mewn ffordd gywir; eithr yn cyrchu moddjon y byd trwy gamwedd ac anoneſtrwydd?

6. Pa fodd y dichon neb weddio ar Dduw yn yſtyriol, wrth ddywedud, *Maddau i ni ein dyledjon* (hynny yw, ein pechodau) *fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr*; tra na fyddont yn ewyllyſio troi'n ediſeiriol oddi wrth eu pechodau, nac yn fodlon i faddau i'r rhai a bechant yn eu herbyn hwy?

7. Pa fodd y dichon neb weddio ar Dduw yn yſtyriol, wrth ddywedud, *Nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg*; tra fyddont yn awyddus i fyned i gymdeithaſau a lleoedd, neu gyflyrau a galwedigaethau profedigaethus; ac yn ddiymorol i wrthwynebu rhwyſg lygredig eu natur, ag fy'n arwain i bob profedigaeth a drygioni?

8. Pa fodd y dichon neb ddywedud yn yſtyriol wrth Dduw, *Eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r Gallu, a'r Gogoniant, yn oes oeſoedd. Amen*; heb adnabod Awdurdod oruchel, Gallu anfeidrol, a Mawredd gogoneddus Duw; nac ymddwyn yn ufudd, yn barchus, ac yn ddiolchgar, tu ag atto?

Cw. Ym mha fodd y mae Arferiad yſtyriol o'r *Weddi hon* yn fuddjol, trwy Fendith Dduw, i gynhyddu Duwioldeb ynnoch?

Att. 1. Pan ddywedom, *Ein Tâd, yr hwn wyt yn y nefoedd*; fe ddylai'r yſtyriaeth o hyn fagu ynnom fwy o Ffydd, a Pharch, ac Ufudd-dod i Dduw fel ein Tâd, a'n dyſgu i fod yn ddilynwyr iddo fel plant annwyl.

2. Pan ddywedom, *Sancteiddier dy Enw*; ni a ddylem yſtyriaid, nad oes i ni arferyd Enw ſanctaidd Duw yn ofer, na'i halogi mewn un modd; eithr ymrôi ym mhob ffordd i berchi Enwau, Priodoliaethau, Gair, Ordinhadau, Addoliad, a Gweithredoedd Duw, a phob peth cyſſegredig a berthyn iddo;

iddo; a gwneuthur ein gorau, er i ni, a'n teulu, ei anrhydeddu ef.

3. Pan ddywedom, *Deued dy Deyrnas*; ni a ddylem yſtyriaid ein Rhwymedigaeth i ddymuno Llwyddiant Eglwys Duw; a cheiſio Dyrchafiad ei Deyrnas ef, a'i Gyſiawnder, a dinyſtr teyrnafiad pechod yn y byd, ac ynnom ein hunain hefyd.

4. Pan ddywedom, *Gwneler dy Ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd*; ni a ddylem yſtyriaid ein Rhwymedigaeth i waſanaethu ac addoli Duw yn barchus, yn ôl ei Ewyllys, ac ymſodloni i Drefn Rhagluniaeth Duw tu ag attom, gan ymoſtwng i'w Ewyllys ef ym mhob peth.

5. Pan ddywedom, *Dyro i ni heddyw ein bara beunyddjol*; ni a ddylem yſtyriaid ein Rhwymedigaeth i alw yn feunyddjol ar Dduw, ac ymddiried yn ei Ragluniaeth ef o ddydd i ddydd, am ein cynhaliaeth, trwy ffordd gywir ac oneſt; ac na chwennychom ddim mewn ffordd anghyſiawn.

6. Pan ddywedom, *Maddau i ni ein dyledjon* (hynny yw, ein pechodau) *fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr*; ni a ddylem yſtyriaid ein dyled i edifarhâu am bechod, a chredu yn yr Arglwydd Jeſu; ac am fod mor ewyllyſgar i faddau i'w gilydd, ac yr ŷm o gael Maddeuant gan Dduw.

7. Pan ddywedom, *Nac arwain ni i broſedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg*; ni a ddylem yſtyriaid, nad oes i ni ymollwng yn ewyllyſgar gyd â rhwyſg ein chwantau pechadurus, na rhedeg yn rhyſygus o'n gwirfodd i broſedigaeth, a'r drwg o bechod.

8. Pan ddywedom wrth Dduw, yn niwedd y *Weddi hon, Eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r Gallu, a'r Gogoniant, yn oes oeſoedd. Amen*; ni a ddylem yſtyriaid ein Rhwymedigaeth i glodfori Mawredd gogoneddus, tragywyddol, ac anfeidrol Duw; ac i ymrôi yn hollol i'w ogoneddu ef, ac ymoſtwng iddo ym mhob peth: canys felly y mae ein Gweddi yn pregethu i ni; ac yn ſuddjol, trwy Fendith Dduw, i gynhyddu Duwjoldeb ynnom.

BRITISH MUSEUM 30 60 MAY